# Comisiynydd Plant Cymru

# Gwerthusiad o'n *Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc: 2016-19*

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Cyflwyniad gan y Comisiynydd** .......... 3
**Sylwadau gan y Panel Ymgynghorol** .......... 5
**Tu ôl i'r Cynllun** .......... 7
**Datblygu'r Cynllun Gwaith: 2016-19** .......... 10
Crynodeb o'r cynnydd: Sut rydym ni wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion hyn? .......... 14
Y Tair Blynedd ddiwethaf .......... 20
Uchafbwyntiau .......... 21
**Ymchwiliadau a Chyngor: Cefnogi pobl ifanc i gael mynediad i'w hawliau** .......... 22
Iechyd Meddwl, llesiant a thaclo bwlio .......... 22
Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol 23
Chwarae a Hamdden .......... 23
Diogelwch yn y Gymuned, yr Ysgol a'r Cartref .......... 24
Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a gwasanaethau cyhoeddus .......... 24
Pontio i Oedolaeth .......... 25
**Amcan Strategol: Iechyd meddwl, llesiant a thaclo bwlio** .......... 27
Iechyd meddwl a llesiant .......... 27
Bwlio .......... 30
Iechyd Meddwl mewn ysgolion, Perthnasoedd Iach, eiriolaeth a pharchu lleisiau pobl ifanc .......... 32
Eiriolaeth a iechyd .......... 33
Llesiant ym maes gofal cymdeithasol .......... 34
**Amcan Strategol: Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol** .......... 35
Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag Effaith Tlodi .......... 35
Deddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol .......... 38
Gofal Plant .......... 38
Iaith Arwyddion Prydain / BSL .......... 39
Cefnogaeth Mabwysiadu .......... 39
**Amcan Strategol: Chwarae a Hamdden** .......... 41
Sbotolau ar Erthygl 31: yr hawl i chwarae a hamdden .......... 41
Trafnidiaeth .......... 43
**Amcan Strategol: Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol a'r cartref)** .......... 44
Amddiffyniad Cyfartal .......... 44
Bord Gron Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) — Amddiffyn plant rhag ecsbloetio a thrais .......... 45
Prosiect Pontio'r Cenedlaethau .......... 45
Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan .......... 46
**Amcan Strategol: Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hyrwyddo'i fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus** .......... 47
Cynllun Llysgenhadon y Comisiynydd Plant .......... 47
Ffordd Gywir .......... 49
Senedd Ieuenctid .......... 52
Cwricwlwm newydd Cymru .......... 52
Eiriolaeth: Parch at farn y plentyn .......... 53
Addysg Gartref .......... 54
Mynediad at addysg i rai mewn Cadeiriau Olwyn .......... 56
**Amcan Strategol: Pontio i oedolaeth ar gyfer pob person ifanc sydd angen gofal a chefnogaeth parhaus** .......... 57
Y Gofal Cywir: Profiadau pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant .......... 58
Gwell Cefnogaeth ar gyfer Ymadawyr Gofal .......... 60
Paid dal yn ôl: Pontio .......... 62
**Diweddglo** .......... 64

# Cyflwyniad gan y Comisiynydd

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso fy nghynllun strategol tair-blynedd ar gyfer 2016-19.

Yn fy mlwyddyn gyntaf fel Comisiynydd (2015-16) roeddwn i am gael gwybod beth oedd bwysicaf i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Er mwyn gwneud hynny, fe wnes i lansio ymgynghoriad Cymru gyfan o'r enw *Beth Nesa?What Next?* i glywed barn plant a phobl ifanc ar lawer o agweddau ar fywyd beunyddiol; y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio, yr ysgolion maen nhw'n mynd iddynt a'r cymunedau lle maen nhw'n byw. Fe ofynnais i hefyd iddyn nhw bennu eu blaenoriaethau eu hunain; y pethau roedden nhw'n meddwl y dylwn i fod yn canolbwyntio arnyn nhw fel Comisiynydd Plant, i lywio fy nghynllun gwaith.

Roedd y sgyrsiau gawson ni gyda mwy na 7000 o blant ac oedolion yn fodd i mi a'r tîm ddatblygu'r Cynllun ar gyfer *Plant a Phobl Ifanc: 2016-19*, er mwyn symud ymlaen gyda'r blaenoriaethau hyn.

Yn y Cynllun roedd dyheadau clir: erbyn 2019 byddai Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at wella ym meysydd iechyd meddwl, bwlio, mynediad at chwarae i bob plentyn, gwell cefnogaeth i ymadawyr gofal, gwell pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, yr un amddiffyniad ag oedolion yn erbyn ymosodiad, a bod plant yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys fy sefydliad fy hun).

Dydw i ddim yn comisiynu gwasanaethau, na chwaith yn darparu gwasanaethau rheng flaen; prif nôd fy ngwaith yw dylwanadu ar, a chefnogi eraill i newid eu polisiau a'u hymarfer er mwyn helpu plant a phobl ifanc. Rwyf am i blant a phobl ifanc fy ngalw i gyfri ynghylch sut mae'r tîm a minnau wedi gweithio i ddylanwadu ar gynnydd yn y meysydd hyn. Ein cenhadaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf fu cyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth newydd, ynghyd â chyfleu lleisiau a phrofiadau pobl ifanc yng Nghymru, er mwyn dangos i Lywodraeth Cymru a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru pam mae'n bwysig bod y newidiadau hyn yn digwydd. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso i ba raddau mae fy nhîm a minnau wedi llwyddo i wneud hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi gweithio i hybu gwelliannau trwy annog gwasanaethau cyhoeddus i ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a gwella sut maen nhw'n cynllunio ac yn darparu eu gwasanaethau i blant. Trwy hynny, mae nifer o sefydliadau wedi ymrwymo i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, o Heddlu De Cymru, i Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae hefyd i'w groesawu'n fawr bod rhaid i Awdurdodau Lleol, wedi i'r tîm a minnau gweithio'n galed i ddylwanadu ar y penderfyniad, roi sylw i CCUHP wrth

ddarparu gwasanaethau i blant o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2016.

Rydym wedi cynnal ein hymdrechion i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y Llywodraeth er mwyn gweithio er budd hawliau plant. Chwaraewyd rhan arweiniol yn y gwaith o sicrhau Bil a fydd yn golygu bod plant yn cael amddiffyniad cyfartal ag oedolion yn erbyn camdriniaeth. Rydym wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Senedd Ieuenctid a chwricwlwm newydd i Gymru a fydd yn sicrhau bod plant yn dysgu am eu hawliau. Yn dilyn ein hargymhellion a'n gwaith dylanwadu, rydym hefyd wedi gweld cyllid newydd er mwyn i wasanaethau gydweithio i drawsffurfio gwasanaethau iechyd meddwl, a gwaith yn cychwyn tuag at ddull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd a llesiant emosiynol. Rydym hefyd wedi gweld mwy o gyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae pob un o'r rhain yn gamau positif iawn ymlaen at wireddu ymrwymiad cenedlaethol Cymru i gydraddoldeb a hawliau plant.

Rwyf hefyd wedi parhau i gefnogi plant a phobl ifanc unigol lle mae gwasanaethau cyhoeddus wedi torri eu hawliau. Rwyf wedi herio'r gwasanaethau hynny i wneud yn well, ac wedi defnyddio fy mhwerau, lle roedd hynny'n briodol, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddynt. Yn rhy aml, mae'r achosion hyn yn dangos, er gwaethaf cynnydd cadarnhaol, nad yw hawliau rhai plant bob amser yn cael eu cyflawni. Mae hynny'n dweud wrthyf na allaf laesu dwylo, a bod rhaid i bawb ohonom barhau i ymdrechu i fynd i'r afael â'r achosion mae plant yn eu hwynebu lle torrir eu hawliau, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn gallu cyrraedd ei botensial llawn.

# Sylwadau gan y Panel Ymgynghorol

Yn 2016, fe wnes i sefydlu fy mhanel ymgynghorol pobl ifanc, panel ifanc cyntaf y sefydliad. Mae'r panel yn cynnwys tua 30 aelod, sy'n bobl ifanc 11-18 oed. Hyd yma, bu gennym ni 57 o aelodau gwerthfawr.

Maen nhw'n chwarae rôl bwysig yn cefnogi fy nhîm, o gyfweld staff newydd a helpu mewn digwyddiadau i graffu ar ein gwaith a'n prosiectau. Maen nhw'n cwrdd dair gwaith y flwyddyn i drafod hawliau plant, i fy holi ynghylch fy ngwaith, ac i fy nal i gyfrif ar fy addewidion.

Gofynnais iddyn nhw oedd e'n bwysig i mi edrych yn ôl ar fy ngwaith ers 2016, ac ar gyfer pwy dylai'r adroddiad hwn fod. Buon ni hefyd yn trafod sut mae modd parhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith tair blynedd. Fe ges i rai sylwadau ganddyn nhw oedd o gymorth mawr, ac sydd wedi llywio'r adroddiad hwn.

### Sut gallwn ni gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP?

- "Digwyddiadau a gweithgareddau — yn y Cynulliad a thaflenni i rieni"

- "Gwell Integreiddio o ran y Cwricwlwm"

- "Cynghorau Ysgol, posteri, gwybodaeth ar-lein"

- "Senedd Ieuenctid Cymru"

### Pwy sy'n gyfrifol am wella llesiant a diogelwch pobl ifanc a beth allai gael ei wneud i wella hynny?

- "Cyfreithiau llymach ynghylch diogelwch plant ar y cyfryngau cymdeithasol"

- "Y GIG, Ysgolion, Cynghorau, Sally, Gwasanaethau Ieuenctid, Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, Clybiau Chwaraeon"

- "Gwobrwyo pobl ifanc sydd am rannu sgiliau"

- "Rhaid bod gan ysgolion bolisi bwlio/cyfryngau cymdeithasol — Gwerthuso'r ddwy ochr yn gyfartal, y bwli a'r dioddefydd"

- "Opsiwn gweithgareddau am ddim sy'n hygyrch i bawb"

## Ydy e'n bwysig bod y Comisiynydd Plant yn edrych yn ôl ar ei gwaith?

- "Mae'n bwysig bod CPC yn edrych yn ôl ar ei gwaith oherwydd gall Sally edrych, dysgu a gweld beth weithiodd a beth oedd heb weithio, gan hyrwyddo'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ac sy'n gallu cael ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach yn achos y CPC nesaf, er mwyn dysgu a chael enghreifftiau."

- "Ydy, achos gall CPC weld ei gwelliannau yn ystod ei blynyddoedd yn y swydd."

- "Ydy, mae pawb yn gwneud camgymeriadau (nid mewn ffordd wael)"

## Ar gyfer pwy dylai'r gwerthusiad yma fod?

- "Pobl ifanc, fel bod ni'n gwybod sut mae ein barn yn cael ei defnyddio".

-"Cynghorwyr/oedolion/athrawon/aelodau'r senedd er mwyn iddyn nhw fedru cymryd ein barn a gwella hawliau plant i ni mewn ffyrdd sydd o help ac yn angenrheidiol i blant"

- "Unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl ifanc"

# Tu ôl i'r Cynllun

Dim ond 23 o bobl sydd yn fy nhîm o staff, ond maen nhw'n gweithio ar draws Cymru gyfan. Rwy'n dibynnu ar yr her a'r gefnogaeth rwy'n eu cael ganddyn nhw bob dydd, ac mae eu hymrwymiad i blant a'u hawliau wedi llywio a gyrru'r gwaith y byddwch chi'n darllen amdano yma.

Ers cychwyn yn y swydd rydw i wedi bod yn ymroddedig i alluogi a grymuso fy holl weithwyr; i wella perfformiad pob gweithiwr a chyfrannu at gyflawni ein hamcanion strategol trwy roi iddyn nhw'r sgiliau a'r amgylchedd cywir i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu. Fel swyddfa gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwyf hefyd yn ymroddedig i weithredu systemau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n drylwyr ac yn dryloyw.

Bob mis, mae fy nhîm rheoli yn adolygu effaith ac effeithiolrwydd ar draws y sefydliad trwy ddefnyddio cerdyn sgorio cytbwys. Mae'r dull yma yn ein galluogi i ystyried pa mor effeithiol ac effeithlon ydyn ni ar draws 4 maes allweddol:

1. Prosesau Sefydliadol
2. Pobl y Comisiynydd
3. Plant a Phobl Ifanc
4. Cynaliadwyedd Ariannol y Comisiynydd a Gwerth am Arian

Dyma rai uchafbwyntiau o'r tair blynedd diwethaf:

## Proses Sefydliadol

- Safonau'r Gymraeg: cafodd yr arferion gweithredu presennol eu hadolygu'n drylwyr i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llawn.
- Cafodd Polisi a Phroses Cynllunio Strategol eu diwygio, gan sicrhau bod ein dull cynllunio strategol yn un systemig, er mwyn pennu nodau a rheoli'r broses o gyflawni'n gwaith.
- Cafodd paneli ymgynghorol o oedolion a phobl ifanc eu sefydlu i graffu ar waith y sefydliad a gweithredu fel ffrind beirniadol.
- Aethon ni ati'n drylwyr i ganfod risgiau ac ailfodelu'r gofrestr risgiau i sicrhau cyfatebiaeth lawn â'n cynllun strategol tair blynedd.

## Pobl y Comisiynydd

- I gefnogi gweithrediad ein Polisi Cynllunio Strategol ar ôl ei ddiwygio, cafodd 20 aelod o staff hyfforddiant ar Gwrs Cymdeithas Rheoli Prosiectau gan Brifysgol De Cymru, a bu 16 o aelodau yn sefyll yr arholiad terfynol ac yn llwyddo ynddo.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus: bu aelodau o'r tîm oedd yn amrywio o ran graddau a phatrymau gwaith a rhywedd yn cyflwyno cais ac yn elwa o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant gan ddarparwyr allanol fel:
    - Afasic Cymru
    - Blake Morgan
    - Stonewall Cymru
    - Equinox PR
    - Plain English Campaign
    - Cymraeg Clir, Prifysgol Bangor
    - Gwersi Cymraeg gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
    - Y Samariaid
- Fe wnaethon ni wella ymrwymiad ein staff i lesiant mewn cydweithrediad ag Amser i Newid Cymru.
- Arolwg staff bob dwy flynedd: mae'n ein helpu i fesur profiad ein gweithwyr ac yn cyfrannu at y cylch parhaus o welliant yng nghyswllt arferion pobl. Cawson ni gyfradd ymateb o 82% i'n harolwg diwethaf (2018l19); dyma rai uchafbwyntiau:
    - 100% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod ni'n gwrando ar wahanol gymunedau ac yn gweithio ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw
    - 100% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod lleisiau plant yn ganolog i bopeth a wnawn
    - 89% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant ein bod ni'n arddangos gwelliant parhaus yn ein gwaith trwy adfyfyrio rheolaidd
    - 89% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant eu bod yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at ein nodau strategol ac amcanion ein cynllun gwaith blynyddol
    - 100% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli prosiectau a chynllunio strategol.

## Plant a Phobl Ifanc

- Mae ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd yn uwch nag erioed: nododd Ymchwil Beaufort fod bron 20% o'r plant yn yr arolwg wedi clywed am y Comisiynydd, ac roedd 75% o'n Llysgenhadon mewn arolwg yn 2018 wedi clywed am hawliau plant.
- Fe wnaethon ni ymgysylltu â bron 30,000 o blant a phobl ifanc.
- Fe wnaethon ni gefnogi 1753 o blant a phobl ifanc trwy ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor annibynnol.

## Cynaliadwyedd Ariannol y Comisiynydd a Gwerth am Arian

- Daethon ni'n gyflogwr Cyflog Byw.
- Cafodd aelodau o staff eu secondio i swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae dros 90% o deithiau swyddogol y Comisiynydd yn digwydd ar drên neu feic.
- Mae costau teithio a chynhaliaeth wedi gostwng o £26,000 yn 2015l16 i £12,000 yn 2018l19.
- Mae costau'r swyddfa wedi gostwng o £75,000 yn 2015l16 i £63,000 yn 2018l19.
- Mae ein holl waith prosiect yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi cael ei gyflawni am £251,000 = tua 35c y pen i bob plentyn yng Nghymru.

# Datblygu'r Cynllun Gwaith: 2016-19

Pan ddes i'n Gomisiynydd Plant gyntaf yn 2015 fe gynhaliodd y tîm a minnau sgwrs genedlaethol gyda phlant a phobl ifanc Cymru, a'r oedolion sy'n gofalu amdanyn nhw ac yn eu cefnogi. Fy rôl i fel Comisiynydd Plant Cymru yw bod yn llais annibynnol i holl blant a phobl ifanc Cymru. Er mwyn bod yn bencampwr effeithiol, roedd angen i mi glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc beth roedden nhw'n teimlo y dylwn i fod yn codi llais yn ei gylch.

Trwy'r sgyrsiau hyn fe ges i ddysgu beth oedd yn bwysig i blant a phobl ifanc, ac fe ges i help i bennu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd cyntaf fel Comisiynydd Plant. Yr enw ar y sgwrs hon oedd Beth Nesa/ What Next? a chafodd ei datblygu mewn dau gam.

Yng ngham un, bu fy nhîm a minnau'n cwrdd â mwy na 1000 o blant a phobl ifanc a mwy na 200 o oedolion oedd yn ofalwyr ac yn weithwyr proffesiynol i gael sgwrs strwythuredig am eu bywydau beunyddiol a'u pryderon, a'u barn ynghylch beth ddylai fod yn flaenoriaethau i mi. Fe dreuliais i amser gyda phlant cyn-ysgol yng Nghaerffili, gofalwyr ifanc ym Mhowys, pobl ifanc oedd yn byw mewn llety hostel ym Mhort Talbot ac Ynys Môn, plant anabl a'u gofalwyr mewn ysgolion a hosbis, pobl ifanc oedd yn cael triniaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl i gleifion mewnol yng Ngogledd a De Cymru, Ffermwyr Ifanc, Sgowtiaid a Geidiau a llawer o gynghorau ysgol a ieuenctid. Yng nghyfnod dau, bu'r tîm a minnau'n casglu barn cryn dipyn yn fwy na 6000 o blant, pobl ifanc, rhieni, gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill ledled Cymru, yn bennaf trwy holiaduron, a drefnwyd o amgylch y pedair thema sy'n gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP);

**Darpariaeth**: Ydy plant yng Nghymru yn cael y pethau mae arnyn nhw eu hangen i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel? Beth ddylai fod yn flaenoriaeth i CPC o ran dylanwadu ar welliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc?

**Amddiffyniad**: Ydy plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel? Beth ddylai CPC roi blaenoriaeth iddyn nhw o ran dylanwadu ar welliannau ym maes diogelu plant a phobl ifanc?

**Cyfranogiad:** Ydy plant a phobl ifanc yn cael dewisiadau a chyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw? Beth ddylai CPC roi blaenoriaeth iddo o ran cyfranogiad?

Hyrwyddo: Ydy plant a phobl ifanc yn gwybod am eu hawliau? Sut dylai CPC eu cynnwys yn ei gwaith?

Datgelodd canfyddiadau ein sgyrsiau a'n hymgynghori fod llawer o blant yng Nghymru, yn 2016, yn cael bywydau diogel, hapus ac egnïol, a'u bod yn teimlo bod yr oedolion o'u cwmpas yn gwrando arnyn nhw ac yn eu parchu.

Fodd bynnag, roedd grwpiau mawr o blant oedd ddim yn cael y manteision hynny, mewn amrywiaeth o ffyrdd. Fe ges i wybod bod;

**- Plant a phobl ifanc eisiau teimlo'n ddiogel allan yn eu cymunedau lleol a chael pethau i'w gwneud.**

**- Mae plant o deuluoedd sydd â llai o arian yn llai bodlon ar y cyfleusterau yn eu cymuned ac yn teimlo'n llai diogel nag eraill.**

**- Roedd plant 3-7 oed eisiau i'r Comisiynydd wneud chwarae yn brif flaenoriaeth.**

**- Soniodd gormod o blant am brofiadau beunyddiol o fwlio, a dyna oedd prif flaenoriaeth plant 7-18 oed i'r Comisiynydd Plant daclo.**

**- Mae plant sydd angen help ychwanegol gyda'u hiechyd meddwl yn aros yn rhy hir am y gofal cywir. Dyma oedd prif flaenoriaeth rhieni a gweithwyr proffesiynol ar gyfer gwaith y Comisiynydd.**

**- Mae plant a phobl ifanc sydd angen gofal iechyd a chymdeithasol ychwanegol yn cael profiad 'ymyl y clogwyn wrth droi'n 18, gyda chynllunio a chefnogaeth wael wrth bontio.**

**- Roedd mwy o blant yn derbyn gofal maeth, gan berthnasau neu ofal preswyl nag yn flaenorol, ac nid oedd digon o'r plant hyn yn cael gofal sefydlog na chanlyniadau digon da wrth adael gofal.**

**- Roedd plant yn derbyn negeseuon cymysg, sef bod ganddyn nhw hawliau o dan CCUHP i'w cadw'n ddiogel, ond bod y gyfraith yn rhoi llai o amddiffyniad rhag ymosodiad corfforol iddyn nhw nag sydd gan oedolion.**

**- Roedd llawer o blant, pobl ifanc ac oedolion yn pryderu bod darpariaeth i blant, fel canolfannau ieuenctid a chwarae, a chymorth ariannol i deuluoedd â phlant, wedi colli mwy na grwpiau eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf o doriadau i gyllid cyhoeddus.**

*Beth Nesa* oedd yr ymgynghoriad mwyaf a mwyaf cynhwysfawr a gynhaliwyd erioed gan ein swyddfa. Roedd y cyfoeth o dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm a minnau yn dangos yn eglur beth ddylai fod yn flaenoriaethau i mi yn ystod fy nhair blynedd cyntaf fel Comisiynydd Plant. Ar sylfaen gadarn ein sgyrsiau a'n hymgynghori, datblygwyd y *Cynllun ar gyfer Plant a Phobl Ifanc: 2016-19*, ac fe wnes i'r addewidion canlynol i blant a phobl ifanc.

**Erbyn 2019 rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r gwelliannau canlynol i blant:**

- **Bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad prydlon i'r gwasanaethau iechyd meddwl mae arnynt eu hangen. Bydd rhaglenni cryfach ar gyfer hybu iechyd a llesiant emosiynol ar waith yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuenctid**
- **Bydd profiadau cyfoes plant o fwlio yn cael eu deall yn well, a bydd mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol**
- **Bydd gwell mynediad i weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o golli'r cyfleoedd hynny, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl**
- **Bydd ymadawyr gofal yn cael gwell mynediad at opsiynau tai diogel a sicr, a chynnig gweithredol o swydd neu le mewn addysg neu hyfforddiant**
- **Bydd pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol parhaus yn cael profiad gwell o bontio i wasanaethau oedolion**
- **Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol**
- **Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun**

Fel tîm rydyn ni wedi gweithio i gyflawni pob un o'r addewidion hyn. Rydyn ni am sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu gwireddu ym mhob gwasanaeth maen nhw'n eu derbyn yn eu cymunedau, a'u bod yn gallu cyfranogi'n ystyrlon yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yr egwyddorion hyn sydd wedi tywys ein gwaith, ac rydym ni'n hyderus ein bod wedi gweld gwelliannau, ond mae rhagor o ffordd i fynd o hyd.

Bydd yr adroddiad hwn yn dangos sut mae fy nhîm a minnau wedi ceisio rhoi sylw i bob un o'r materion a godwyd yn *Beth Nesa* trwy ein gwaith cyfranogiad, ymchwiliadau, dylanwadu a pholisi ym mhob un o'r chwe maes blaenoriaeth:

- Iechyd Meddwl, lles a mynd i'r afael â bwlio
- Tlodi ac anghydraddoldebau cymdeithasol
- Chwarae a hamdden
- Diogelwch yn y gymuned, yr ysgol a'r cartref
- Codi ymwybyddiaeth o hawliau plant dan Gonfenswin y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac annog eraill yn y sector cyhoeddus i'w gweithredu
- Pontio i oedolaeth

## Crynodeb o'r cynnydd: Sut rydym ni wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion hyn?

| Blaenoriaeth | | Beth mae CPC wedi'i wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater hwn? | | Ydy'r gwasanaethau wedi cyrraedd y man lle hoffen ni iddyn nhw fod? |
|---|---|---|---|---|
| **Bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad prydlon i'r gwasanaethau iechyd meddwl mae arnynt eu hangen. Bydd rhaglenni cryfach ar gyfer hybu iechyd a llesiant emosiynol ar waith yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuenctid.** | | Bob blwyddyn ers dod yn Gomisiynydd Plant rwyf wedi defnyddio fy adroddiad blynyddol i gyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth emosiynol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Mae pryderon ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol a'u darpariaeth yn dal i gynrychioli cyfran sylweddol o'm gwaith achosion, ac rwyf wedi cwrdd yn rheolaidd â phobl ifanc ledled Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.<br><br>Rwy'n ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2019 ac yn herio pawb ohonyn nhw i sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i anghenion plant a phobl ifanc a'u bod yn gallu darparu gwasanaethau cefnogi i unrhyw blentyn y gall fod angen hynny arnynt. | | Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn fy holl argymhellion i gryfhau'r ddarpariaeth iechyd meddwl, sydd wedi arwain at fwy o gyllid ar gyfer y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) a chynnydd tuag at "ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a iechyd meddwl". Fodd bynnag, er gwaethaf cyflwyno argymhellion i gryfhau'r strwythurau cynllunio ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a'r angen am ddatblygu darpariaeth breswyl ddiogel, sicr, mae cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn araf. Dyna pam bydd y tîm a minnau'n dal i bwyso am gynnydd yn y meysydd hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Bydd profiadau cyfoes plant o fwlio yn cael eu deall yn well, a bydd mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol.** | | Mae fy nhîm a minnau wedi ymgynghori â mwy na 2000 o blant ar eu barn a'u profiadau o fwlio, ac arweiniodd hynny at gyhoeddi adroddiadau ar fwlio a seiberfwlio, a datblygu adnoddau 'Stori Sam' o ansawdd uchel ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol.<br><br>Rwy'n hyderus bod hyn wedi gwella dealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc o fwlio, gan fod canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru "Parchu Eraill" yn cyfeirio'n uniongyrchol at y negeseuon a godwyd gan blant a phobl ifanc yn yr adroddiadau hyn. | | Mae bwlio'n bryder i lawer o bobl ifanc, a dyna pam rwyf wedi bod yn pwyso'n drwm am yr angen i osod dyletswydd statudol ar ysgolion i gofnodi digwyddiadau er mwyn llywio strategaethau ataliaeth. Rwy'n falch bod y Llywodraeth bellach wedi ymateb yn gadarnhaol trwy gyflwyno'r canllawiau statudol newydd 'Hawliau, Parch a Thegwch'. Rwy'n gobeithio bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn fuan mewn ysgolion ledled Cymru a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Bydd gwell mynediad i weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o golli'r cyfleoedd hynny, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl.** | | Rydyn ni wedi ymgynghori â phobl ifanc ynghylch eu mynediad at weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden, ac arweiniodd hynny at gyhoeddi ein hadroddiad ar Erthygl 31, *Paid dal yn ôl*, a *Siarter ar gyfer Newid*. Roedd y rhain fel ei gilydd yn cyflwyno nifer o argymhellion penodol ynghylch sut gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wella mynediad i weithgareddau diwylliant a hamdden ar gyfer y rhai sy'n fwyaf tebygol o golli'r cyfleoedd hynny. Roedd hyn yn cynnwys galwadau am gynnwys pobl ifanc yn fwy yn y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio a chyflwyno Cynllun Cyflawni ar gyfer Tlodi Plant. | | Mae cynlluniau Bwyd a Hwyl Gwyliau'r Haf wedi parhau i gynyddu yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Yn 2019, gwnaed y cyllid yn fwy hyblyg, gan gefnogi twf cynlluniau chwarae a bwyd cymunedol yn ystod y gwyliau; newid yr oeddwn i wedi'i argymell i'r Llywodraeth. Rwyf wedi derbyn ymateb ffurfiol i'r argymhellion yn fy adroddiad *Siarter ar gyfer Newid*, ac rwy'n cadw llygad manwl ar eu cynnydd. |
| **Bydd ymadawyr gofal yn cael gwell mynediad at opsiynau tai diogel a sicr, a chynnig gweithredol o swydd neu le mewn addysg neu hyfforddiant.** | | Yn 2017, fe gyhoeddais fy adroddiad *Breuddwydion Cudd*, oedd yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ynghylch sut i wella gwasanaethau er mwyn cefnogi pobl ifanc i ffynnu ar ôl gadael gofal. Buon ni'n edrych eto i weld y cynnydd ar y gwaith yma yn 2018. | | Arweiniodd ein gwaith dylanwadu at greu cronfa grantiau benodol ar gyfer ymadawyr gofal, cronfa Dydd Gŵyl Dewi, ac estyn cefnogaeth Ymgynghorwyr Personol i bob ymadawr gofal hyd at 25 oed. Mae'r cynlluniau hyfforddiant a phrentisiaeth wedi cael eu hestyn mewn Awdurdodau Lleol, ac mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi ymwneud |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn fwy â datblygu polisi. Roedd hanner yr awdurdodau lleol wedi eithrio ymadawyr gofal rhag talu treth y cyngor mewn ymateb i'm hadroddiadau, a gwnaeth y Llywodraeth yr eithriad hwn yn un Cymru-gyfan yn 2019 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.<br>Fodd bynnag, er gwaethaf ein galwadau yn y maes hwn, nid yw mynediad at dai a chynnig cyflogaeth neu hyfforddiant gweithredol yn digwydd yn gyson ledled Cymru, a dyna pam bydda i'n parhau i wthio am hynny y tu hwnt i 2019. |
| **Bydd pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol parhaus yn cael profiad gwell o bontio i wasanaethau oedolion.** | | Yn 2018 fe gyhoeddais i *Paid dal yn ôl*, oedd yn amlygu'r heriau mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth bontio rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol plant i rai oedolion.<br><br>Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod pontio i bobl ifanc yn y gwasanaethau iechyd, a byddaf yn dal i fynd ar ôl hyn yn 2019/2020. | | Ar ôl gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, mae fy ngwaith achosion yn dangos bod pobl ifanc yn dal i wynebu rhwystrau, a dyna pam byddaf yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | parhau i bwyso am gynnydd yn y maes hwn.<br><br>Rwy'n falch bod y Llywodraeth bellach wedi datblygu canllawiau drafft yn y maes hwn, a'i bod yn gweithio gyda fy swyddfa ac eraill i sicrhau ei bod yn helpu i gynhyrchu gwell profiadau a chanlyniadau. |
| **Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol.** | | Rwyf wedi trafod y mater hwn yn rheolaidd gyda swyddogion a Gweinidogion ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd Plant, gan bwyso am gyflwyno deddfwriaeth. Rydyn ni wedi siarad â phlant a phobl ifanc i gasglu eu barn ar unrhyw newid arfaethedig i'r gyfraith. Mae fy swyddfa wedi cael ei chynrychioli ar weithgorau'r Llywodraeth, a gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector plant i roi sylw i'r mater allweddol hwn lle nad oedd plant yn cael eu hamddiffyn rhag cosb gorfforol yn y gyfraith. Rwyf wedi rhoi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymgyngoriadau ac ymchwiliadau ar y pwnc hwn, ac wedi cyhoeddi papurau safbwynt er mwyn llywio'r drafodaeth. | | Cyflwynwyd y Bil Amddiffyniad Cyfartal ym mis Mawrth 2019 ac mae nawr yn symud trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chefnogaeth wleidyddol eang. Os daw i rym, bydd plant yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag cosb gorfforol. |
| **Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus,** | | Ers 2015, mae 57 o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'm panel ymgynghorol. Rydyn ni wedi ymgysylltu â bron 30,000 o blant a phobl ifanc a bellach mae 39% o ysgolion cynradd a 50% o ysgolion uwchradd yn rhan o'm Cynllun | | Mae nifer o sefydliadau wedi gweithio gyda'm tîm i ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu polisïau a'u hymarfer eu hunain. Mae hyn yn cynnwys Heddlu De |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **gan gynnwys fy sefydliad fy hun.** | | Llysgenhadon, ynghyd â 10 o wahanol grwpiau cymunedol.<br><br>Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu tair fersiwn wahanol o'r Ffordd Gywir i annog sefydliadau cyhoeddus i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gynllunio'u gwasanaethau. | | Cymru, Amgueddfa Cenedlaethol Cymru, HMP Parc YOI, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r rhan fwyaf o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Bro Morgannwg.<br><br>Mae'r Senedd Ieuenctid wedi cael ei sefydlu, ac mae Bil i ostwng oed pleidleisio i 16. |

# Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r tîm wedi....

## Cyfranogaeth

Ymweld â 361 o grwpiau, ysgolion a chlybiau ers 2016

**361**

**29,850**
Gwrando ar 29,850 o blant a phobl ifanc

Hyfforddi o leiaf 465 o ysgolion i fod yn Lysgenhadon hawliau

**465**

## Polisi a Materion Cyhoeddus

Ymateb i 63 o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth DU

**63**

Mynychu 325 o weithgorau ers 2017

**325**

## Cynlluniau

**10**
10 o Lysgenhadon Cymunedol

**50%**
50% o ysgolion uwchradd Cymru nawr yn rhan o'n cynllun Llysgenhadon Uwchradd

Cefnogi a hyfforddi 57 o aelodau i'r panel ymgynghorol pobl ifanc

**57**

Mae 39% o ysgolion Cynradd Cymru yn rhan o'n cynllun Llysgenhadon Gwych

**39%**

Creu a chyhoeddi 30 o adnoddau i ysgolion a grwpiau cymunedol ar bynciau megis hawliau, gwahaniaethu a thlodi

**30**

**9**
Tasg Arbenning wedi'u creu

## Cyfathrebu

Cyhoeddi 26 o adroddiadau ac ymchwiliadau

**26**

Sicrhau 1840 o ddarnau o sylw mewn darllediadau a phrint

**1840**

## Ymchwiliadau a Chyngor

**979**
Mae 979 o rieni wedi cysylltu gyda ni

**106**
Mae 106 o blant wedi cysylltu gyda ni'n uniongyrchol am gymorth

**1,753**
Cefnogi 1753 o bobl ifanc

Mae 222 o bobl broffesiynol wedi cysylltu gyda ni

**222**

## Sally

Cwrdd yn unigol gyda 56 o Weinidogion Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Llywodraeth y DU

**56**

Rhoi tystiolaeth i 15 o bwyllgorau'r Cynulliad

**15**

Cyfarfod ar gyfartaledd gyda 100 o grwpiau o blant a phobl ifanc am drafodaethau wyneb-yn-wyneb yn flynyddol

**100**

# Uchafbwyntiau

**Ers 2016, rydyn ni wedi chwarae rôl allweddol yn y gwelliannau canlynol i hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru:**

Mae hawl gan bob plentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu yr aseswyd bod angen gofal neu gefnogaeth arall arnynt, i gael cefnogaeth eiriolydd proffesiynol annibynnol i'w helpu i gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch eu bywydau, a dylid mynd ati'n rhagweithiol i gynnig y gefnogaeth honno iddyn nhw

Sefydlodd Cymru ei Senedd Ieuenctid ei hun, a etholwyd yn ddemocrataidd, a eisteddodd am y tro cyntaf yn 2019, gan roi llais canolog mewn penderfyniadau i bobl ifanc

Mae cynnydd yn digwydd o safbwynt datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a iechyd meddwl, gan sicrhau y bydd plant 3-16 oed yn dysgu am iechyd a llesiant yn y cwricwlwm newydd ac yn cael cefnogaeth i'w iechyd meddwl yn eu lleoliad addysg

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016, ac mae'n gofyn bod pawb sy'n gweithio o dan ei dyletswyddau yn rhoi sylw dyledus i erthyglau CCUHP

Cyflwynwyd Bil i roi amddiffyniad cyfartal i blant yn erbyn cosb gorfforol, ac mae'n debygol o ddod yn gyfraith yn gynnar yn 2020

Gall plant sy'n gadael gofal gael mynediad i gronfa Dydd Gŵyl Dewi i'w helpu gyda phethau pwysig fel adnoddau addysg a hyfforddiant, cyfarpar gwaith, gwersi gyrru a thai, ac ni fydd angen bellach iddyn nhw dalu biliau treth y cyngor nes eu bod yn 25 oed. Mae'r cyllid wedi cael ei estyn fel bod pawb ohonynt yn cael cefnogaeth ymgynghorydd personol hyd at 25 oed os bydd angen hynny arnyn nhw

Cyflwynwyd cyfraith newydd sy'n cryfhau ymhellach ymrwymiad Cymru i hawliau plant o dan CCUHP, gyda Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymestyn y gallu i bobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio mewn rhai etholiadau yng Nghymru

Mae cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei ddatblygu, a fydd yn gofyn bod pob plentyn 3-16 oed yn dysgu am eu hawliau

Mae'r canllawiau gwrthfwlio wedi cael eu hadnewyddu ac yn fwy seiliedig ar hawliau, mae'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol gan blant, a bydd yn galw am fwy o weithredu cadarnhaol gan ysgolion.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Ymchwiliadau a Chyngor: Cefnogi pobl ifanc i gael mynediad i'w hawliau

Mae'r gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn ffynhonnell gyfrinachol, annibynnol o gyngor a chefnogaeth, sydd ar gael am ddim i blant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gofalu amdanynt, os byddan nhw'n teimlo eu bod yn methu troi at neb arall gyda'u problem.

Mae fy nhîm o Swyddogion yn sicrhau bod pob oedolyn, beth bynnag yw eu rôl, yn gweithredu er lles pennaf plant a phobl ifanc trwy sicrhau bod eu llesiant yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar y plant a'r bobl ifanc hynny. Er ein bod ni'n gwneud popeth a allwn i ddatrys yr holl achosion sy'n dod atom, ar adegau mae materion systemig neu ddiffyg arweiniad priodol yn golygu ein bod yn methu galw asiantaethau penodol i gyfrif ar y pryd. Mae'r materion hynny wedyn yn cael eu symud ymlaen gan ein tîm polisi i ddylanwadu ar newid ehangach. Enghreifftiau o hyn fyddai ein gwaith parhaus ar bontio ym maes iechyd a'n prosiect yn 2019/20 ar rôl a gweithrediad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r gwasanaeth wedi tyfu yn ystod y tair blynedd, ac wedi symud o drin 519 o achosion yn 2015/16 i 671 yn 2018/19.

Dyma rai enghreifftiau o sut rydym wedi gallu cefnogi plant a phobl ifanc ar draws y blynyddoedd hyn;

## Iechyd Meddwl, llesiant a thaclo bwlio

### Iechyd Meddwl

**Y broblem:** Cysylltodd aelod o deulu â ni, yn pryderu ynghylch eu plentyn oedd yn meddwl am hunanladdiad, oedd wedi colli cysylltiad â byd addysg, ond yr oedden nhw'n teimlo oedd heb dderbyn cefnogaeth, er gwaethaf atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) gan y Meddyg Teulu a'r darparwr addysg.

**Beth Wnaethon Ni**: Cysylltodd ein swyddog ni ag adran addysg yr awdurdod lleol, y gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS i ganfod pa rwystrau oedd yn atal y person ifanc rhag cael mynediad i'r gefnogaeth iechyd meddwl ofynnol. Yn dilyn ein hymyriad, rhoddodd adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol becyn o gefnogaeth yn ei le ar gyfer y plentyn yn y tymor byr, a gwnaeth CAMHS drefniadau i gwrdd â'r person ifanc a chynnal asesiad.

## Bwlio

Roedd bwlio mewn lleoliadau addysg yn broblem mewn 53 o achosion a ddaeth at sylw ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn 2018/19. Daeth yr achosion o fwlio ar draws holl ystod oed ysgol, ac roedden nhw'n amrywio o bryfocio i ymosodiadau corfforol honedig. Adroddwyd hefyd am achosion o hunan-niweidio o ganlyniad i'r bwlio. Llwyddwyd i roi cyngor a chefnogaeth i bawb ohonynt.

# Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol

**Y broblem**: Bu ambell achos lle cysylltwyd â ni'n benodol ynghylch materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb cymdeithasol a thlodi. Lle buom ni'n cael sgyrsiau gyda phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, mae'r rheiny wedi llywio datblygiad polisi mewn perthynas â pholisi gwisg ysgol, prydau ysgol am ddim a mwy o gefnogaeth ariannol ar gyfer ymadawyr gofal. Mae unrhyw faterion a rannwyd gyda ni ynghylch mynediad at Gredyd Cynhwysol wedi cael eu rhannu'n ddienw ar lefel y Deyrnas Unedig gyda'm cyd-gomisiynwyr.

**Beth wnaethon ni**: Mae aelodau o deuluoedd wedi cysylltu â ni oherwydd pryder ynghylch diffyg cefnogaeth ariannol gan yr Awdurdod Lleol wrth ofalu am blant a phobl ifanc o dan Drefniant Teulu Preifat oedd yn golygu nad oedd angen darparu llety ar gyfer y plant hyn. Mae ein swyddogion wedi cysylltu â'r awdurdodau lleol dan sylw, ac yn dilyn hynny gwnaeth y mwyafrif daliad nominal i'r teuluoedd. Rhannwyd y pryderon hyn gyda'r tîm polisi.

# Chwarae a Hamdden

**Y broblem:** Cawson ni lythyr gan ddisgyblion cyngor ysgol yn gofyn sut gallen nhw sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn ystod proses ymgynghori ynghylch y bwriad i gau eu canolfan chwaraeon leol.

**Beth wnaethon ni**: Fe wnaethon ni gysylltu â'r awdurdod lleol a chasglu gwybodaeth am eu cynlluniau presennol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn lleol. Rhoddodd yr awdurdod wybodaeth i ni ynghylch camau nesaf yr ymgynghoriad, a chadarnhau y byddai'r disgyblion yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a chael eu clywed yn y cyfarfod cyhoeddus oedd i'w gynnal yn fuan. Fe wnaethon ni rannu'r wybodaeth gyda'r disgyblion a'u hannog i ofyn am unrhyw asesiad effaith ar hawliau plant a gwblhawyd fel rhan o'r broses gynllunio.

**Y canlyniad i blant**: Dyma'r adborth a gafwyd gan yr ysgol: "Diolch am eich ateb i'n llythyr ym mis Hydref ynghylch y posibilrwydd o gau Canolfan Chwaraeon A. Aeth ein

Cyngor Ysgol i'r cyfarfod cyhoeddus, a chan ddilyn eich cyngor, gofynnwyd cwestiwn ynghylch a oedd awdurdod lleol B wedi cwblhau asesiad effaith ar hawliau plant ynghylch cael gwared o'r Ganolfan Chwaraeon. Dywedodd Mr C (Cyfarwyddwr Strategol yr Awdurdod Lleol) wrth y cyfarfod nad oedd awdurdod lleol B wedi cwblhau asesiad eto, ond y byddent yn gwneud hynny cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch y ganolfan."

## Diogelwch yn y Gymuned, yr Ysgol a'r Cartref

**Y broblem:** Cysylltodd rhiant â ni ar ôl i'w plentyn sôn bod disgybl arall wedi ymosod arnynt yn rhywiol, oherwydd bod y rhiant yn anfodlon ar ymateb yr ysgol a'r awdurdod lleol i'w pryderon. Doedd y person ifanc ddim yn mynd i'r ysgol oherwydd pryderon diogelwch.

**Beth wnaethon ni:** Fe wnaeth Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor gwrdd â'r person ifanc a siarad â nhw ar sawl achlysur. Cytunwyd i weithredu ar eu rhan a siarad â'r ysgol a'r awdurdod lleol er mwyn cael hyd i ateb fyddai'n golygu bod y person ifanc yn gallu aros yn yr ysgol bresennol a theimlo'n ddiogel. Roedd hynny'n gofyn bod y swyddog yn datblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda'r disgybl, oedd wedi dadrithio ynghylch oedolion yr oedd yn teimlo ddylai fod wedi bod yn rhoi amddiffyniad. Roedd hwn yn achos cymhleth lle bu angen i'r Swyddog Ymchwiliadau a Chyngor fod yn gyfryngwr rhwng y rhiant a'r person ifanc, yn ogystal ag amrywiaeth o swyddogion uwch yn yr ysgol a'r awdurdod lleol, yr oedd gan bawb ohonynt bersbectif gwahanol ar yr achos. Cymerodd yr achos dri mis i'w ddatrys, ac roedd hynny'n cynnwys mynychu cyfarfod amlddisgyblaeth fel rhan o'r broses o gael hyd i ateb.

**Y Canlyniad**: Yn y diwedd dychwelodd y person ifanc i'r ysgol, yn fodlon ar y trefniadau diogelu a roddwyd yn eu lle. Cyflwynodd yr awdurdod lleol hyfforddiant i holl staff yr ysgol ar sut mae delio gydag achosion o'r math yma, a bu'r heddlu, fel rhan o'u gwaith parhaus gydag ysgolion, yn cyflwyno hyfforddiant i ddisgyblion yn yr ysgol ar ymddygiad priodol ac amhriodol.

## Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a gwasanaethau cyhoeddus

Mae Ymchwiliadau a Chyngor yn wasanaeth pwysig i sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Cymru yn gallu cael mynediad i'w hawliau trwy'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.

Dyma rai enghreifftiau o'r materion a godwyd gydag Ymchwiliadau a Chyngor yng nghyswllt cydnabod hawliau plant a CCUHP yn ymarferol:

- Cysylltodd rhiant â ni i drafod Cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ei mab sy'n disgwyl diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD). Roedd y rhiant wedi cael gwybod bod angen i'w mab symud i ysgol cyfrwng Saesneg sydd ag uned ymddygiad gan nad oes dim ar gael yn Gymraeg. Cysylltodd Swyddog â'r Pennaeth Cynhwysiad, a ddywedodd fod ymarferiad rhychwantu ar waith i archwilio'r posibiliadau o gydweithio i gynnig darpariaeth Gymraeg. Ers hynny rydym wedi dysgu bod gan y person ifanc bellach ddiagnosis o ASD, gweithwyr cefnogi 1:1 sy'n siarad Cymraeg, a'i fod yn cyrchu cyrsiau ar-lein sydd o ddiddordeb.
- Cysylltodd person ifanc â ni yn teimlo'n anfodlon ynghylch ymateb gan Gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol roedd wedi mynd iddi'n flaenorol, ar ôl ysgrifennu atyn nhw i rannu profiadau o fod yn yr ysgol;
- Cysylltodd person ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn â ni yn teimlo'n anhapus am ganlyniadau Asesiad Addysg Gorfforol CA3 — roedd yn teimlo bod camwahaniaethu wedi digwydd gan nad oedd unrhyw addasiadau rhesymol wedi cael eu gwneud yn ystod yr asesiad Addysg Gorfforol CA3 i gymryd yr anabledd corfforol i ystyriaeth.

## Pontio i Oedolaeth

Mae'r canlynol yn amlygu'r ystod o faterion a ddaeth i'n sylw trwy bobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â phobl ifanc yn gadael gofal. Fe roeson ni gyngor i bob galwr, a lle roedd hynny'n briodol, buon ni'n ymyrryd i gefnogi datrys y mater.

- Cysylltodd person ifanc oedd wedi gadael gofal â ni, yn dweud nad oedd wedi cael unrhyw gefnogaeth wrth symud i fyw'n annibynnol, nad oedd unrhyw arian ar gael, ac nad oedd yn cael ateb wrth ffonio'r Ymgynghorydd Personol a'r Gweithiwr Cymdeithasol;
- Cysylltodd person ifanc â ni ar ôl gadael gofal. Roedd bellach yn astudio yn y Brifysgol ac am gael cyngor ynghylch gwarantwr ar gyfer llety preifat ar rent. Roedd yn bwriadu rhannu tŷ gyda myfyrwyr eraill ac wedi gofyn i'w Ymgynghorydd Personol am gymorth, ond heb gael unrhyw gyngor defnyddiol.
- Roedd person ifanc oedd wedi gadael gofal, ac a oedd wedi derbyn cyllid ar gyfer cwrs HND 2-flynedd, wedi cael ar ddeall y byddai'n rhaid talu'n llawn am y flwyddyn gyntaf yn y Brifysgol. Rhoddwyd gwybod i'r person ifanc am gronfa Dydd Gŵyl Dewi.

- Cysylltodd person ifanc oedd ag anghenion ychwanegol â ni ar ôl gadael gofal; roedd wedi bod mewn lleoliad maeth 'y tu allan i'r sir' am 15 mlynedd. Nid oedd bellach yn cael cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol ac roedd yn rhan o ddadl rhwng y ddau awdurdod lleol ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth.

# Amcan Strategol: Iechyd meddwl, llesiant a thaclo bwlio

O dan CCUHP, mae gan blant yng Nghymru hawl i dderbyn y safon orau bosib o iechyd, o ran corff a meddwl, ac i gael eu trin â pharch ac urddas a'u hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth a thriniaeth wael. Mae hynny'n golygu bod dyletswydd ar wasanaethau yng Nghymru i atal y materion hyn lle bo modd, er mwyn cyfyngu ar y niwed mae plant yn ei brofi.

Dyma sut mae fy nhîm a minnau wedi gweithio tuag at sicrhau gwelliant yn y meysydd hyn:

## Iechyd meddwl a llesiant

Erbyn 2019, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd tuag at sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad prydlon i'r gwasanaethau iechyd meddwl mae arnynt eu hangen. Bydd rhaglenni cryfach ar gyfer hybu iechyd a llesiant emosiynol ar waith yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuenctid

Mae fy nhîm a minnau wedi bod yn gweithio i gyflawni newid system gyfan yn y dull o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymdrin â materion iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae pryderon ynghylch mynediad at CAMHS sylfaenol ac arbenigol, a darpariaeth iechyd meddwl yn fwy cyffredinol yn dal i gynrychioli cryn dipyn o'm llwyth achosion. Yn rhy aml dywedir wrth bobl ifanc eu bod yn gorfod ffitio i strwythur y gwasanaeth, yn hytrach na bod gwasanaethau'n gallu darparu ar gyfer eu hanghenion. Gall fod angen i nifer bychan deithio'n bell o'u cartrefi a'u teuluoedd i gael triniaeth. Yn 2016 fe ddes i'n ymwybodol bod arddegwyr yn aml yn cael profiad "ymyl y clogwyn" wrth symud neu 'bontio' rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion ac na fernir bod angen cefnogaeth iechyd meddwl ffurfiol ar blant bob amser, er bod ganddynt anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

## Beth wnaethom ni i wella hyn ar gyfer plant a phobl ifanc?

Bob blwyddyn rydym wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth emosiynol yng Nghymru:

Yn 2015/16, fe wnes i argymell bod Rhaglen y GIG Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn dal i dderbyn cyllid digonol i gyflawni ei hamcanion, ac y dylai fonitro a yw profiadau plant o ofal iechyd meddwl yn gwella. Derbyniwyd hyn gan Lywodraeth Cymru ac fe ges i wahoddiad i ymuno â'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol fel arsylwr ar gyfer Rhaglen T4CYP. Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd gyllid ychwanegol ar gyfer CAMHS a phennu amserau aros uchelgeisiol, a fu o gymorth i leihau'r amserau aros gormodol i rai plant. Estynnwyd y cyllid ar gyfer T4CYP tan fis Hydref 2019.

Yn 2015/16, fe wnes i argymell bod rhaglen adolygu'r cwricwlwm, 'Dyfodol Llwyddiannus' yn gweithio'n agos gyda rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y GIG er mwyn hybu dulliau ysgol gyfan, seiliedig ar dystiolaeth, o ymdrin â pherthnasoedd iach, iechyd meddwl a llesiant.

Rwyf wedi bod yn pwyso am ddull gweithredu ysgol gyfan ers gwneud yr argymhelliad hwn, gan gynnwys mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Roeddwn i'n falch o weld bod yr angen am ddull gweithredu ysgol gyfan yn cael lle amlwg yn adroddiad Cadernid Meddwl y pwyllgor, a ddeilliodd o'r gwaith hwn. Gwnaed cynnydd yn hyn o beth trwy sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol ar y cyd i drafod dull gweithredu ysgol gyfan, a chynhyrchwyd canllawiau drafft. Fel rhan o hyn, cafwyd cyllid newydd ar gyfer cynllun peilot sy'n darparu hyfforddiant iechyd meddwl a chefnogaeth uniongyrchol i ysgolion.

Rwyf wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y cwricwlwm yng Nghymru yn cefnogi plant i ddeall am iechyd meddwl a llesiant a pherthnasoedd iach.
Yn 2017/18, fe wnes i argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i ofyn bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau) yn sefydlu strwythurau cynllunio amlasiantaeth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylen nhw ofyn hefyd bod BPRhau yn cymryd camau i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a iechyd meddwl plant i dimau amlddisgyblaeth, a fydd yn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth a thriniaeth emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl.

Rwy'n falch o weld arwyddion newid cyflym mewn sawl rhanbarth o ran ailffurfio ac ailddychmygu gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol. Fe hoffwn weld y newid hwn ym mhob ardal, ac rwy'n cynnal cyfarfodydd ac yn olrhain cynnydd gyda phob rhanbarth yng Nghymru.

Ers cryn amser rwyf wedi bod yn rhoi pwysau ar Weinidogion Llywodraeth Cymru, swyddogion ac eraill i sicrhau cyfleusterau gofal preswyl newydd ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny nad oes darpariaeth addas ar hyn o bryd yng Nghymru i ymateb i'w hanghenion iechyd meddwl a gofal cymdeithasol cymhleth. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru fel petai wedi derbyn yr angen am y ddarpariaeth newydd hon, a'i bod wedi addo edrych ar agweddau ymarferol comisiynu gwasanaeth o'r fath.

Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 fe wnes i nifer o argymhellion sy'n ceisio dylanwadu ymhellach ar gynnydd yn y maes hwn, sef:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cyllid newydd wedi'i neilltuo'n benodol at ddibenion darpariaeth breswyl iechyd meddwl a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd ar gyfer y nifer bach o blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
Dylai Llywodraeth Cymru weithredu hefyd i sicrhau bod yr unedau presennol ar gyfer cleifion mewnol iechyd meddwl yng Nghymru yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i estyn yr ystod o bobl ifanc sy'n gallu derbyn gofal yno'n ddiogel.
Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl ddiogel yng Nghymru ar gyfer y nifer bach iawn o blant sydd angen y gofal hwn.
Fe wnes i argymell hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio fel mater o frys i sefydlu trefniadau dilyniant ar gyfer y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd trwy'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

## Beth bydden ni'n parhau i'w wneud:

Erbyn 2022, rwy'n gobeithio y bydd Cymru'n wlad lle mae gwasanaethau'n cydweithio i roi cefnogaeth un stop, 'dim drws anghywir' i blant a phobl ifanc ar gyfer iechyd meddwl a llesiant. Byddwn ni'n ymweld â phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eleni, ac yn herio pawb ohonynt i sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn, ac yn gallu darparu gwasanaethau cefnogi i unrhyw blentyn sydd angen hynny. Byddaf yn parhau i godi'r angen am lety diogel digonol ar gyfer ein plant sydd â'r anghenion iechyd meddwl ac ymddygiadol mwyaf cymhleth, y mae angen iddynt fyw oddi cartref.

Dangosodd canfyddiadau *Beth Nawr* - ein hymgynghoriad graddfa fawr gyda phlant ac oedolion yn 2018-19 er mwyn ein helpu i ddatblygu ein cynllun tair-blynedd nesaf, fod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 72% o bobl ifanc 11-18 oed yn credu mai'r gefnogaeth gywir ar gyfer iechyd meddwl ddylai fod yn brif flaenoriaeth i'r Comisiynydd | 29% o bobl ifanc 11-18 oed yn credu mai sicrhau'r help cywir ar gyfer problemau iechyd meddwl neu emosiynol ddylai fod yn brif flaenoriaeth i fi | 86% o weithwyr proffesiynol yn pryderu am iechyd meddwl plant | 85% o rieni a gofalwyr yn credu mai iechyd meddwl ddylai fod yn brif flaenoriaeth i fi |

## Bwlio

Mae plant o bob oed ledled Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch bwlio gyda fi. Yn 2015, rhoddodd plant 7-11 oed a rhai 11-18 oed daclo bwlio ar frig eu rhestr blaenoriaethau, dyna pam gwnes i ymrwymiad yn fy nghynllun gwaith y byddai gwell dealltwriaeth o brofiadau cyfoes plant o fwlio, erbyn 2019, ac y byddai mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol.

Yn 2017, cynhaliodd fy nhîm a minnau ymgynghoriad graddfa fawr gyda'm hysgolion Llysgenhadon Gwych — Stori Sam, a gasglodd farn dros 2000 o blant a phobl ifanc a bron 300 o weithwyr proffesiynol. Roedd y dasg arbennig yma'n gofyn i ddisgyblion rannu eu meddyliau a'u teimladau am fwlio. Mae seiberfwlio yn fater allweddol, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd, ac ni ddylid edrych arno ar wahân i fwlio corfforol neu eiriol. Dywedodd plant wrthyn ni hefyd eu bod yn aml yn teimlo'n ansicr beth i'w wneud wrth weld bwlio'n digwydd, a soniwyd am bwysigrwydd gweithredu uniongyrchol i ymyrryd gan staff yr ysgol ac oedolion oedd yn cael eu trystio.

"Fe fydd pethau'n gwella. Mae bob amser rywun i siarad â nhw, yn fam, yn chwaer, yn athro, neu'n un o'th gyfoedion. Mae yna rywun sydd eisiau helpu; ac mae rhaid i ti adael iddyn nhw." Disgybl ysgol uwchradd.

Beth sy'n dy boeni di?
"Cael fy seiberfwlio gan bobl eraill" (Merch, 11)
"Bwlio yn yr ysgol, fel pobl yn dweud pethau cas am liw croen." (Merch, 9)
"Pobl yn bod yn gas i fi ar-lein" (Bachgen, 9)

## Beth wnaethon ni i daclo bwlio?

Ar ôl gwrando ar brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru, cyhoeddodd fy nhîm a minnau Stori Sam. Gan ddefnyddio'r prif negeseuon o'n gwaith gyda phobl ifanc, fe gyflwynais i nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion i daclo bwlio a chefnogi pobl ifanc oedd yn dioddef ei effaith. Cyflwynwyd y rhain hefyd yn fy adroddiadau blynyddol. Roeddwn i'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau "Parchu Eraill" ac yn gosod dyletswydd ar ysgolion i fonitro achosion o fwlio a datblygu strategaethau gwrthfwlio fel rhan o ddull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a iechyd meddwl.

Bu fy swyddfa'n gweithio gydag ysgolion i greu pum cynllun gwaith gwrthfwlio wedi'u gwahaniaethu yn ôl oedran (o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4), y cyfan wedi'u cyhoeddi gydag adnoddau i gyd-fynd â nhw. Lansiwyd y rhain i gyd-fynd ag wythnos gwrthfwlio 2017 ac o fewn chwe mis roedd yr adnoddau ysgol gynradd wedi cael eu lawrlwytho 10,640 o weithiau a'r adnodd uwchradd 1439 o weithiau. Yn ystod Wythnos Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy Diogel 2019 lansiodd fy swyddfa *Paid â Phoeni, Rydw i yma i ti: Profiadau Plant a Phobl Ifanc o Seiberfwlio yng Nghymru*, adroddiad oedd yn amlygu prif ganfyddiadau fy ymgynghoriad ar seiberfwlio yn 2018, ochr yn ochr â thri Phecyn Gweithredu wedi'u gwahaniaethu, a ddatblygwyd gyda phobl ifanc i alluogi newid dan arweiniad cyfoedion.

**Hawliau Digidol a Seiberfwlio**

Buon ni'n cefnogi pobl ifanc o Gymru i gymryd rhan mewn prosiect Ewropeaidd yn 2019, ar thema hawliau plant yn yr amgylchedd digidol. Buon ni'n gweithio gyda grŵp o 16 disgybl mewn ysgol a fu'n trafod y pwnc am rai wythnosau ac yn cynnig argymhellion oedd yn cynnwys addysg ddigidol ryngweithiol, addysg i rieni ar sut mae pobl ifanc yn defnyddio'r rhyngrwyd, a chael gwared ar wasanaethau negeseuon dienw. Yna dewiswyd dau lysgennad o'r grŵp i gynrychioli Cymru yn Fforwm ENYA ym Mrwsel, a chyflwynodd un ohonynt y canfyddiadau i Gomisiynwyr ac Ombwdsmyn o 44 gwlad yn Belfast ym mis Medi 2019.

Hefyd cynhalion ni arddangosfa gelf yn y Senedd ym mis Tachwedd 2017, er mwyn sicrhau bod darluniadau pwerus plant a phobl ifanc o effaith bwlio yn cael eu gweld gan lunwyr penderfyniadau cenedlaethol yng Nghymru.

Yn 2019, fe gyhoeddon ni *'Paid â phoeni, rydw i yma i ti'* — adroddiad ar brofiadau plant a phobl ifanc o seiberfwlio yng Nghymru. Ar ôl clywed adroddiadau gonest iawn am fywyd ar-lein gan fwy na 400 o blant a phobl ifanc a mwy na 150 o weithwyr proffesiynol yng Nghymru, cyflwynwyd atebion a gynigiwyd gan bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ynghylch sut mae taclo bwlio ar-lein a gwneud y rhyngrwyd yn lle diogel i bawb.

## Oes cynnydd wedi digwydd ers 2016?

Rydym ni'n hyderus bod ein gwaith wedi cyflawni'n nod o sicrhau gwell dealltwriaeth o brofiadau plant o fwlio, a'n bod wedi galluogi ysgolion i ddatblygu gwell strategaethau.

Rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, yn cyflwyno canllawiau statudol diwygiedig ar fwlio — "Hawliau, Parch a Thegwch". Mae'r canllawiau newydd yn ymateb yn gadarnhaol i sawl un o'm hargymhellion, gan gynnwys y disgwyl i bob ysgol benodi arweinydd gwrthfwlio, ac yn pwysleisio'r angen i ysgolion ddatblygu mecanweithiau cofnodi clir ar gyfer achosion o fwlio. Rwy'n gobeithio y caiff y canllawiau hyn eu rhoi ar waith yn fuan mewn ysgolion ledled Cymru, a bydd fy nhîm a minnau yn parhau i fonitro'r cynnydd.

# Iechyd Meddwl mewn ysgolion, Perthnasoedd Iach, eiriolaeth a pharchu lleisiau pobl ifanc

## Addysg Perthnasoedd Iach

Mae gan blant hawl i gael eu trin â pharch ac urddas, a byw'n rhydd rhag trais a chamwahaniaethu. Dyna pam rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r NSPCC yng Nghymru, Prifysgol Caerdydd, Cymorth i Ferched Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu plant i ddysgu am berthnasoedd iach.

Fe wnaethon ni gefnogi creu AGENDA: canllaw pobl ifanc i wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfri. Mae'r adnodd yn darparu amrywiaeth o syniadau creadigol, a gafodd eu profi mewn ysgolion yng Nghymru, sy'n galluogi pobl ifanc i arwain addysg perthnasoedd iach er mwyn atal a gwrthweithio bwlio cysylltiedig â rhywiaeth a homoffobia. Cafodd adnodd oed-briodol â ffocws creadigol tebyg i ysgolion cynradd hefyd ei gefnogi gan fy swyddfa. Bu grŵp o fyfyrwyr o ysgol gyfun sydd wedi mabwysiadu dulliau gweithredu AGENDA yn cynrychioli Cymru mewn cyfarfod o Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop ym Mharis yn 2017, ac yn y gynhadledd ddilynol i Gomisiynwyr Plant Ewrop yn y Ffindir, lle buon nhw'n helpu i lunio datganiad Ewrop-gyfan ar y mater hwn.

Cyfrannodd fy swyddfa at waith Panel Arbenigol Perthnasoedd Iach Llywodraeth Cymru, gan roi cyngor a chefnogaeth ynghylch darparu addysg Perthnasoedd Iach yng Nghwricwlwm newydd Cymru. Mae i'w groesawu y bydd pobl ifanc yn awr yn

dysgu am berthnasoedd iach mewn ysgolion, ond ychydig o fanylion sydd ynghylch sut bydd hynny'n cysylltu â dull gweithredu seiliedig ar hawliau.

## Herio Ystrydebau

Mae gan bob plentyn hawl i gael eu trin yn deg. Dyna pam buon ni'n gweithio i daclo dulliau negyddol o bortreadu'r gymuned LHDT yn y cyfryngau. Datblygwyd "Canllaw Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer herio adroddiadau negyddol am y gymuned LHDT yn y cyfryngau": Fel pencampwr hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, byddaf yn codi llais dros hawliau pobl ifanc LHDT* i fyw bywydau llawn fel dinasyddion cyfartal, yn rhydd rhag stereoteipio, bwlio na rhwystrau sefydliadol. Roedd y canllaw hwn yn cefnogi pobl ifanc i herio portreadau negyddol yn y cyfryngau.

Herio Islamoffobia

Yn ôl ymchwil mae troseddau atgasedd crefyddol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hynny'n fwy tebygol o effeithio ar Fwslimiaid nag unrhyw grŵp crefyddol arall. Buon ni'n gweithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST) yn Abertawe i gynhyrchu adnodd am hawliau a chydraddoldeb i Fwslimiaid ifanc yng Nghymru, yn ogystal ag amrywiaeth o fideos, sydd wedi cael eu defnyddio gan grwpiau cymunedol ac ysgolion ledled Cymru, i helpu pobl ifanc i adnabod stereoteipio negyddol.

Roedd 96% o'r disgyblion a ddychwelodd y ffurflenni gwerthuso yn ystod y tri mis cyntaf yn cytuno eu bod yn "fwy tebygol o adnabod stereoteipio negyddol yn y cyfryngau". Enillodd y gwaith hwn Wobr Aur PRide gan y Sefydliad Cysylltiadau Cyhoeddus Siartredig.

## Eiriolaeth a iechyd

Mae hawl gan blant i'w barn gael ei pharchu ac i'w llais gael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Er bod pobl ifanc yng Nghymru yn nifer sylweddol o ddefnyddwyr GIG Cymru, pan ddaw'n fater o wneud cwyn, nid yw'n eglur nac yn hygyrch iddyn nhw sut mae gwneud hynny. Dyna pam roedd argymhellion yn fy adroddiadau blynyddol yn 2016/17 a 2017/18 i Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad o eiriolaeth mewn lleoliadau iechyd ar gyfer rhai o dan 18 oed, ac i lenwi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau. Fe wnes i argymell hefyd bod yr wybodaeth i gleifion 'Putting Things Right' yn cael ei diweddaru i roi cyfarwyddyd i bobl ifanc a'u teuluoedd ynghylch sut gallan nhw gael mynediad at eiriolaeth wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn fy argymhellion, hyd yma ni fu unrhyw newidiadau i unrhyw ganllawiau na dogfennau sy'n darparu gwybodaeth i blant a'u teuluoedd sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd. Roedd fy Seminar flynyddol ar Iechyd Plant ym mis Gorffennaf 2019 yn cynnwys sesiwn yn benodol ar eiriolaeth iechyd i bobl ifanc, a byddaf yn parhau i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**Fe ddefnyddiais i fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 18/19 i argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth cysylltiedig â iechyd i bob plentyn a pherson ifanc sydd angen hynny, ac yn monitro cynnydd byrddau iechyd tuag at gomisiynu eiriolaeth ddigonol, a'u gwaith yn hybu hynny.**

## Llesiant ym maes gofal cymdeithasol

Mae gan blant hawl i'w lles pennaf fod yn flaenoriaeth ym mhob penderfyniad sy'n effeithio ar eu bywydau. Dyna pam rydyn ni wedi gweithio i sicrhau bod plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal yn gallu cael ffordd ystyrlon o sicrhau bod eu hawliau a'u barn yn cael eu cydnabod.

Yn 2017/18, buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â Coram Voice a Llywodraeth Cymru i estyn rhaglen beilot gyda chwe awdurdod lleol yng Nghymru, er mwyn cynnal arolwg o lesiant plant sy'n derbyn gofal yn eu hawdurdodau. Roedden ni wedi argymell bod arolwg Bright Spots "Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di", a ddatblygwyd gan Brifysgol Bryste, ochr yn ochr â phlant oedd â phrofiad o ofal, a chan dynnu ar sylfaen ryngwladol o dystiolaeth, yn cael ei beilota yng Nghymru. Datblygwyd yr arolwg gyda phlant oedd â phrofiad o ofal yn Lloegr, ac mae fersiynau oed gwahanol ar gyfer rhai 4-7, 7-11 ac 11-18 oed, fel bod plant o bob oed yn gallu cyfranogi a rhannu eu barn. Ariannwyd y gwaith yn bennaf gan Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Wella Canlyniadau i Blant, gyda chyfraniad gan ein swyddfa yn ogystal. Derbyniodd pob awdurdod lleol eu hadroddiad eu hunain yn amlygu 'mannau disglair' o ran ymarfer cadarnhaol a meysydd roedd plant a phobl ifanc yn pryderu yn eu cylch. Sicrhawyd hefyd bod adroddiad trosolwg cenedlaethol yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg ac yn cael ei rannu gyda'r Grŵp Cynghori Gweinidogol. Roedd y canlyniadau'n cyflwyno darlun defnyddiol iawn o farn plant. Roedd yr Awdurdodau Lleol a fu'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r darlun wedi'i deilwra ar gyfer eu hardal, oedd yn caniatáu iddyn nhw dargedu darnau o waith at grwpiau perthnasol, fel y nodwyd yn eu hadroddiad eu hunain, er enghraifft roedd un adroddiad yn amlygu pryderon ynghylch bwlio ymhlith bechgyn 7-11 oed. Fodd bynnag, ni chafwyd diweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch estyn cwmpas yr arolwg hwn yn y dyfodol.

# Amcan Strategol: Tlodi ac Anghydraddoldeb Cymdeithasol

Yng Nghymru, rydyn ni'n elwa o'r ffaith bod hawliau plant wedi'u gwreiddio ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)  2011, sy'n gofyn bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Fodd bynnag, er bod y ddeddfwriaeth hon yn ei lle, nid yw bob amser yn amlwg bod penderfyniadau wedi ystyried yn llawn yr effaith bosibl ar hawliau plant. Mae modd diystyru anghenion rhai plant, er bod y penderfyniadau'n cael effaith uniongyrchol ar eu bywydau.

Mae hyn wedi bod yn wir yn rhy aml i blant yng Nghymru sy'n dod o gefndir economaidd difreintiedig neu sydd ag anghenion ychwanegol. Dyma pam rwyf wedi bod yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag yw eu cefndir, eu hanghenion neu eu hamgylchiadau, yn cael derbyn eu hawliau ac yn gallu cyfranogi'n llawn yn eu cymunedau.

Dyma sut mae fy nhîm a minnau wedi gweithio tuag at sicrhau gwelliant yn y meysydd hyn:

## Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant Cymru rhag Effaith Tlodi

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn colli eu hawliau dynol mwyaf sylfaenol, sef diwallu eu hanghenion bwyd, cysgod a iechyd. Mae costau mynychu a chyfranogi yn yr ysgol yn arwain at gyfle anghyfartal i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn hefyd yn teimo eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol oherwydd y diffyg cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw yn eu cymuned leol.

### Beth wnaethon ni i ymdrin â hyn?

Bob blwyddyn rydw i wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar blant yng Nghymru, gan alw ar Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant trwy osod mesurau cryfach yn eu lle i daclo achosion gwaelodol tlodi. Rwyf hefyd wedi galw am fwy o gefnogaeth i leihau'r pwysau ar y teuluoedd tlotaf, trwy roi sylw i newyn gwyliau, costau gwisg ysgol, biliau tanwydd a thlodi mislif.

Oherwydd ein rhwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd yn y maes hwn, cyhoeddodd fy nhîm a minnau adroddiad yn 2019 oedd yn tynnu ar farn a phrofiadau plant, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn amlinellu'r camau ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion eu cymryd i helpu i amddiffyn y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed rhag effaith tlodi. Roedd yn adlewyrchu barn 550 o blant a phobl ifanc, yn ogystal â 40 o weithwyr proffesiynol ac ymatebion arolwg 300 o rieni a gofalwyr o bob rhan o Gymru.

"Weithiau, pan oeddwn i'n ifancach, byddwn i'n eistedd yn y bath adeg mislif achos bod dim padiau gen i. Byddwn i'n colli'r ysgol, a byddai fy mrawd yn dod â'r gwaith cartref adre i fi, a dyna lle bydden i, jyst yn eistedd yn y bath" (Plentyn/Person Ifanc, De Cymru).

"Rydw i'n un o 5. Byddai'n costio £1000 y flwyddyn i mam brynu gwisg ysgol i ni. Dwy ddim yn sôn am stwff drud: sgidiau Tesco, trowsus Tesco...."

Mae'n cyflwyno sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Cyhoeddi Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Tlodi Plant, gyda chamau clir, mesuradwy y byddan nhw'n eu cymryd i wella bywydau plant sy'n byw mewn tlodi

- Gwneud mwy o blant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

- Sicrhau bod mwy o blant yn cael mynediad i gynlluniau Newyn Gwyliau

- Gwneud mwy o deuluoedd yn gymwys i gael grant i'w wario ar gostau ysgol fel gwisg a chyfarpar

- Sicrhau bod polisïau gwisg ysgol ledled Cymru yn fforddiadwy, yn hyblyg ac yn deg

Ochr yn ochr â'r adroddiad, rydyn ni wedi cynhyrchu a chyhoeddi adnoddau i helpu ysgolion i ystyried effaith eu polisïau cyfredol ar sefyllfa ariannol teuluoedd, a chynllunio ar gyfer newidiadau, ar y cyd â'r plant yn eu hysgol. Mae hyn wedi cael ei lansio fel tasg arbennig ar gyfer hydref 2019.

## Oes cynnydd wedi digwydd?

> "Ein ffocws yw cynllun cyflawni ar gyfer tlodi plant, fel roedd Comisiynydd Plant Cymru yn argymell yn ei hadroddiad. A chyflawni gwelliannau ym mywydau teuluoedd a fydd yn caniatáu i blant elwa sydd ar y blaen yng nghynlluniau'r Llywodraeth hon."
> Prif Weinidog Cymru, Medi 2019

Yng Nghymru, mae 29.3% o blant yn byw mewn tlodi. Er bod gan Lywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant, gydag amcanion hirdymor fel 'gwella'r canlyniadau i'r tlotaf' a 'mynd i'r afael â'r premiwm tlodi', nid yw'r camau ymarferol i gyflawni'r nodau hyn wedi'u cyfuno mewn unrhyw fath ar gynllun cyflawni traws-lywodraethol. Er enghraifft, yn 2018, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddod â'r grant gwisg ysgol i ben, ochr yn ochr â chyflwyno cefnogaeth ar gyfer cynnyrch hylendid yn yr ysgol. Bues i'n codi llais am benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod â'r Grant Gwisg Ysgol i ben ym mis Ebrill 2018, heb amlinellu beth fyddai'n cymryd ei le. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun newydd, Mynediad i'r Grant Amddifadedd Disgyblion, y mae modd ei ddefnyddio bellach i brynu gwisg ysgol, cyfarpar, cit chwaraeon, ac offer ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Yn ogystal â'r grant, dylai canllawiau statudol newydd ar bolisiau gwisg ysgol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion gyfrannu at leihau cost y diwrnod ysgol.

## Beth sydd angen newid?

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Tlodi Plant, gyda ffocws ar gamau pendant, mesuradwy i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant sy'n byw mewn tlodi. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y cyfyngir ar y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru gan lunio polisi heb ei ddatganoli. Mae trefniadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio lles a threth, fel cyflwyno cap ar fudd-dal mewn ardaloedd lle mae costau tai uchel, a'r 'terfyn dau blentyn' ar daliadau, yn golygu y bydd plant mewn teuluoedd mwy ar eu colled yn sylweddol o gymharu â'u cyfoedion mewn teuluoedd llai, a hynny heb unrhyw fai o'u rhan eu hunain.

Mae gen i uchelgeisiau y bydd Cymru, erbyn 2022, yn wlad lle mae'r llywodraeth wedi cymryd camau newydd i leihau tlodi plant a'i effaith. Oni bai bod newidiadau'n cael eu gwneud i reolau cymhwysedd prydau ysgol am ddim a gweithredu'r Credyd Cynhwysol, mae'r rhagolygon tlodi plant yng Nghymru yn debygol iawn o waethygu.

Yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 fe wnes i argymell bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd argymhellion yr adroddiad Siarter ar gyfer Newid i ystyriaeth, a chyhoeddi cynllun cyflawni sy'n nodi'n fanwl sut bydd adrannau ar draws y Llywodraeth yn cymryd camau ymarferol i liniaru a mynd i'r afael ag effaith tlodi plant.

## Deddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol

Pan ddes i'n Gomisiynydd, daeth yn amlwg i mi fod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn wynebu heriau wrth gael mynediad at addysg. Yn dilyn cryn lobïo a thystiolaeth helaeth gan ein swyddfa ni ac eraill, gosodwyd dyletswydd 'sylw dyledus' i CCUHP ar wyneb Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Bydd hynny'n golygu bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu disgwyl i'w hawliau gael eu hystyried a'u parchu gan awdurdodau lleol a chyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau am y gefnogaeth mae arnyn nhw ei hangen i gyflawni eu potensial ym myd addysg.

Bydd fy nhîm a minnau'n gweithio gyda phlant, teuluoedd ac ysgolion i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth newydd hon. Rwyf wedi defnyddio fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 i edrych o'r newydd ar yr angen am ddull gweithredu traws-sector wrth wneud penderfyniadau. Dyma fy argymhellion:

- Bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn berthnasol i bobl ifanc hyd at 25 oed. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod dyletswydd statudol sy'n gofyn bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf yn derbyn cludiant diogel i'w lleoliad addysg.

- O ganlyniad, dylai Llywodraeth Cymru ailystyried eu hymateb i'm hargymhelliad yn adroddiad blynyddol 2015l16 i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth a'r canllawiau statudol cysylltiedig.

## Gofal Plant

Mae'n hanfodol sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd — mae hynny'n un o'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 29). Elfen annatod o hynny yw sicrhau bod mwy o blant o gefndir llai cefnog yn cael hawl i dderbyn gofal plant safonol am ddim, yn Gymraeg neu Saesneg. Dyna pam mae fy swyddfa wedi herio Llywodraeth Cymru ar eu cynnig gofal plant cyfredol, nad yw'n cynnig gofal plant ond i deuluoedd sy'n gweithio. Rydw i wedi:

- Rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg;
- Codi llais am y mater yn y cyfryngau ac ei godi'n uniongyrchol gyda Gweinidogion;
- Mynychu Grŵp Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant i arsylwi;
- Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Cyllid Gofal Plant (Cymru).

Mae'r Llywodraeth yn colli cyfle i gau'r bwlch cyflawniad sy'n bodoli rhwng ein plant mwyaf a lleiaf cefnog. Byddaf yn parhau i godi llais ar ran y plant sydd angen ein cefnogaeth.

## Iaith Arwyddion Prydain

Bu plant a phobl ifanc byddar ac aelodau o'u teuluoedd yn mynegi pryder wrthyf fi ar sawl achlysur ynghylch y diffyg darpariaeth a chefnogaeth er mwyn i deuluoedd plant Byddar ddysgu Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Fe gwrddais i â phlant a phobl ifanc Byddar ac aelodau o'u teuluoedd i ddeall mwy am eu profiadau o gael mynediad i gefnogaeth.

Yn dilyn hynny, fe wnes i argymell *"y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau cefnogaeth briodol gan y wladwriaeth ar gyfer anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc Byddar a rhai â nam ar eu clyw a'u teuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd dysgu BSL hygyrch a fforddadwy ar amrywiaeth o lefelau, a chyflogi staff mewn ysgolion sy'n cyfathrebu'n rhugl mewn BSL, er mwyn diwallu anghenion unigolion".* Fe wnes i amlinellu fy mhryderon ymhellach yn fy ymateb i'r Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes cynllun gweithredu ar waith i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd na strategaeth i gefnogi'r gweithlu addysg sy'n gweithio gyda phlant Byddar a rhai â nam ar eu clyw.

Fe wnaethon ni gynhyrchu a chyhoeddi deunyddiau hawliau BSL, ac rydyn ni'n cwrdd yn rheolaidd â Grŵp DEFFO.

## Cefnogaeth Mabwysiadu

Ers 2016, mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi codi pryderon gyda'm swyddfa oherwydd eu bod yn methu cadw mewn cysylltiad â'u siblingiaid a fabwysiadwyd. Mae'r mater wedi dod trwodd i'm gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor annibynnol, ac wedi cael ei godi gyda fi'n uniongyrchol mewn dau ddigwyddiad ymgynghori gwahanol. Roedd y bobl ifanc y bues i'n siarad â nhw yn sylweddoli y gall fod llawer o wahanol ffactorau yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch cyswllt parhaus, gan y gallai'r penderfyniadau hynny effeithio ar blant y ddau deulu, y rhieni biolegol, y mabwysiadwyr a'r gofalwyr maeth. Fodd bynnag, fel pwynt sylfaenol, maen nhw'n teimlo y dylen nhw fedru cynnal lefel o gyswllt gyda'u siblingiaid, a bod ganddyn nhw hawl i gadw eu perthnasoedd teuluol.

Fe godais i'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac Adoption UK a chyflwyno argymhelliad "y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i sicrhau bod hawliau siblingiaid i gadw mewn cysylltiad yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynlluio gofal mabwysiadu".

Mewn ymateb i'n galwadau, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael eu mabwysiadu neu sydd mewn gofal, ynghylch eu hawliau i gadw mewn cysylltiad â'u brodyr a'u chwiorydd.

Yn ogystal, rwyf wedi galw am ddarparu mwy o wasanaethau cefnogaeth mabwysiadu i deuluoedd ledled Cymru. Roeddwn wedi clywed gan deuluoedd trwy fy nhîm Ymchwiliadau a Chyngor nad oedd fawr ddim cymorth therapiwtig mewn rhai rhannau o Gymru y gallen nhw gael mynediad hwylus iddo, a bod mynediad plant at gefnogaeth CAMHS yng Nghymru yn wahanol i'r hyn sydd yn Lloegr.

Cyhoeddodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ynghyd ag Adoption UK, eu bod yn datblygu ystod o wasanaethau cefnogaeth mabwysiadu, gyda chymorth £2.3 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi teuluoedd yng Nghymru i gael mynediad at Wasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig i Fabwysiadwyr (TESSA) a bydd plant yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth penodol i blant. Y bwriad yw estyn cwmpas y gwasanaethau cymorth hyn i Gymru gyfan.

Byddwn ni'n parhau i fonitro'r gefnogaeth ddatblygu trwy ein safle ar Grŵp Ymgynghorol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

# Amcan Strategol: Chwarae a Hamdden

Yn 2015, dywedodd plant yng Nghymru wrthyf fi eu bod nhw eisiau teimlo'n ddiogel allan yn eu cymunedau lleol, a chael pethau i'w gwneud. Roedd plant o deuluoedd llai cefnog yn llai bodlon ar y cyfleusterau yn eu cymuned ac yn teimlo'n llai diogel nag eraill. Roedd llawer o blant a phobl ifanc yn pryderu bod darpariaeth i blant, fel chwarae a chanolfannau ieuenctid, a chymorth ariannol i deuluoedd â phlant, wedi colli mwy na grwpiau eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf o doriadau. Dyma pam gwnes i nodi'r canlynol:
Dyma sut mae fy nhîm a minnau wedi mynd ati i sicrhau gwelliannau i bobl ifanc yn y meysydd hyn:

**Erbyn 2019, rwy'n gobeithio bydd gwell mynediad i weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan y plant sy'n fwyaf tebygol o golli'r cyfleoedd hynny, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl."**

## Sbotolau ar Erthygl 31: yr hawl i chwarae a hamdden

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn creu hawl benodol i bob plentyn gael gorffwys a hamdden, cymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau adloniant priodol i'w hoed a chyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Mae deddfwriaeth Cymru'n adlewyrchu'r hawl i chwarae ar lefel statudol, a bu cynnydd cyson o ran cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith plant. Fodd bynnag, mae'r elfennau cadarnhaol hyn o dan fygythiad yn gyson, ac mae pwysau ariannol ar awdurdodau lleol wedi arwain at gau rhai gwasanaethau chwarae, ieuenctid a hamdden yng Nghymru.

Yn ystod 2017/2018, cynhaliodd fy nhîm a minnau adolygiad o'r mynediad i hawliau o dan Erthygl 31. Dywedodd dros 450 o blant a phobl ifanc wrthyn ni am sut maen nhw'n chwarae, yn treulio'u hamser rhydd, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol a'u hardal leol.

- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cael anhawster gwneud y pethau maen nhw eisiau eu gwneud oherwydd cost gweithgareddau, y ffaith nad oes digon ohonynt bob amser, a'u bod nhw weithiau'n anodd eu cyrraedd.

- Roedd plant a phobl ifanc am gael cyfleoedd i dreulio amser rhydd a chymdeithasu yn eu cymunedau, a theimlo'n ddiogel wrth wneud hynny.
- Dyw rhai plant a phobl ifanc ddim bob amser yn teimlo'n ddigon hyderus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddyn nhw.
- Mae gan bob plentyn hawl i leisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Byddwn ni'n gofyn i bob cyngor yng Nghymru weithio gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu deall, a'u diwallu'n effeithiol.

Amlygodd yr adroddiad i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill fod mynediad at gyfleoedd chwarae, hamdden, y celfyddydau, chwaraeon, diwylliant a threftadaeth yn fwy na rhywbeth 'braf i'w gael', ac yn hanfodol i ddatblygiad deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn adeiladu'r amgylcheddau sy'n rhoi cyfleoedd i'n plant fwynhau chwarae ac amser rhydd gyda'r plant hynny a'u teuluoedd, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau.

Mae canlyniadau'r arolwg wedi cael eu defnyddio i ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth trwy ymateb i ymchwil y pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc, ac ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys: y canllawiau cynllunio cenedlaethol drafft, *Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10*; y strategaeth ddrafft ar ordewdra, *Pwysau Iach: Cymru Iach*; a'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

**Fel rhan o'r gwaith hwn, gweithion ni gyda Mudiad Meithrin a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd fy swyddfa'n bresennol yn Eisteddfod yr Urdd 2017 i ymgynghori â phlant, pobl ifanc ac oedolion am ddarpariaeth chwarae a hamdden.**

Rydyn ni'n parhau i weithio o blaid mynediad at chwarae trwy hyrwyddo'r Diwrnod Chwarae a chymryd rhan weithredol ynddo.
Yn Awst 2018, i ddathlu penblwydd Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn 31, cyhoeddais ddatganiad ar y cyd gyda Chomisiynwyr Plant eraill y DU i danlinellu pwysigrwydd chwarae i blant a phobl ifanc.

## Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth i bobl ifanc yn fater sy'n aml yn cael ei godi gyda'm swyddfa; yn arbennig mewn perthynas â chael mynediad at addysg, ond hefyd fel pwynt cyffredinol i gael mynediad i weithgareddau hamdden neu fannau cyflogaeth i bobl ifanc.

Yn 2016 fe wnes i argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth statudol a'r canllawiau gweithredu cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod yr holl deithiau i'r ysgol ac oddi yno yn ddiogel, a bod awdurdodau lleol yn gwbl glir ynghylch eu cyfrifoldebau i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yn 2017, daeth Llywodraeth Cymru â'u cynllun teithio noddedig i bobl ifanc i ben, heb gynnal Asesiad Effaith llawn ar Hawliau Plant. Fe ysgrifennais i at Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer yr Economi a Seilwaith i fynegi fy mhryderon bod y cynllun hwn yn dod i ben a'r diffyg sylw i hawliau a phrofiadau plant. Hefyd fe gyflwynais i argymhelliad oedd yn annog Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Estyn y cynllun i bobl ifanc 18 oed;

- Sicrhau bod y cynllun yn nodi rhieni a gofalwyr ifanc, ac ymadawyr gofal sy'n cael hyfforddiant yn y gweithle neu brentisiaethau.

**Mae'r cynllun bellach yn ôl yn ei le, ac mae ar gael i blant hyd at 18 oed. Fodd bynnag, mae angen adolygiad llawnach o drefniadau teithio er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu teithio i'w lleoliad addysg. Dyna pam mae fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19 wedi galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r ddarpariaeth statudol a'r canllawiau cysylltiedig.**

# Amcan Strategol: Diogelwch (yn y gymuned yr ysgol a'r cartref)

Yn y Cynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc: 2016-9, fe nodais fy mhryderon bod plant yng Nghymru yn derbyn negeseuon cymysg bod ganddyn nhw hawliau i'w cadw'n ddiogel o dan CCUHP, ond bod y gyfraith yn rhoi llai o amddiffyniad iddyn nhw nag i oedolion. Dyma pam gwnes i nodi:

**"Erbyn 2019, rwy'n gobeithio bydd gan blant yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol"**

Dyma sut mae fy nhîm a minnau wedi gweithio i roi amddiffyniad cyfartal i blant yng Nghymru o dan y gyfraith, a chyfrannu at sicrhau eu bod nhw'n ddiogel gartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned.

## Amddiffyniad Cyfartal

Ar y diwrnod pan ges i fy mhenodi yn 2015, fe wnes i gyflwyno fy nghynlluniau i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael amddiffyniad cyfartal ag oedolion rhag ymosodiad corfforol. Roedd hynny'n gofyn am alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno newid deddfwriaethol a fyddai'n dileu amddiffyniad "cosb resymol", y gallai oedolion ei ddefnyddio os oedden nhw'n ymosod ar blentyn, ac a allai olygu, petai'n cael ei dderbyn, nad oedd yr oedolion yn wynebu euogfarn. Mae dileu'r amddiffyniad hwn yn golygu bod gan blant yr un amddiffyniadau ag oedolion, ac yn gwneud holl bobl Cymru, gan gynnwys plant, yn gyfartal o dan y gyfraith.

Yn ymrwymiad maniffesto'r etholiad yn 2016, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddileu amddiffyniad cosb resymol o'r gyfraith er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant. Cyflwynwyd y Bil ym mis Mawrth 2019 ac mae bellach yn symud trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chefnogaeth wleidyddol gyffredinol.

Oherwydd bod hwn yn fater hawliau sylfaenol, a allai effeithio ar bob plentyn yng Nghymru, fe wnes i godi'r angen am amddiffyniad cyfartal i blant ym mhob cyfarfod Gweinidogol ges i yn 2015-16, gan gynnwys dau gyfarfod gyda Phrif Weinidog Cymru ar y pryd. Rwyf wedi rhoi tystiolaeth i gefnogi'r Bil i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, wedi darparu nodyn briffio ar gyfer Aelodau Cynulliad ac wedi siarad yn helaeth yn gyhoeddus ar y mater hwn.

Mae'n ymddangos yn debygol y bydd Cymru, yn gynnar yn 2020, wedi pasio deddfwriaeth fydd yn rhoi i blant amddiffyniad cyfartal ag oedolion rhag cosb gorfforol.

Dyfyniadau gan Bobl Ifanc / Adroddiadau Newyddion.

"Dylai plant gael eu hamddiffyn, nid eu smacio"
"Mae smacio bob amser yn gallu mynd yn rhy bell, ble mae tynnu'r llinell?"
"Mae rhai pobl yn credu bod rhaid i chi smacio plant iddyn nhw ddysgu sut mae ymddwyn. Rwy'n anghytuno, mae'n gwbl ddiangen".
"Dylech chi siarad ac esbonio fel eu bod nhw ddim yn gwneud yr un peth eto."
"Yn lle smacio gallwch chi wahardd y teledu neu'r iPad; mae unrhyw beth yn well na smacio"

## Bord Gron Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE) – Amddiffyn plant rhag ecsbloetio a thrais

Rwyf wedi hwyluso cyfarfod bord gron cenedlaethol am ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE) ers dod i'r swydd yn 2015. Sefydlwyd y ford gron gan fy rhagflaenydd, ac mae'n dod â chynrychiolwyr ynghyd o holl Heddluoedd Cymru, Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r sector gwirfoddol. Mae'r cyfarfodydd yn monitro ac yn asesu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r mater ac mae'r rhai sy'n bresennol yn rhannu arfer addawol. Mae materion cysylltiedig, gan gynnwys plant sy'n mynd ar goll dros nos a threfniadau delio mewn cyffuriau 'County Lines' hefyd ar yr agenda'n rheolaidd. Ar ben hynny, gwahoddwyd siaradwyr allanol i fod yn bresennol a rhoi cyflwyniadau, gan gynnwys Ymddiriedolaeth St Giles a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol ynghylch Trais yn erbyn Benywod, Trais seiliedig ar Rywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
Mae'r ford gron hon wedi helpu i hwyluso cynnydd cadarnhaol o ran amddiffyn plant rhag trais. Ers 2017 rydym ni wedi:
codi pryderon difrifol ynghylch canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, a arweiniodd at adfer cyllid i bartner trydydd sector ac ailsefydlu fforwm cynllunio traws-asiantaeth er mwyn sicrhau trefniadau hirdymor y canolfannau
sicrhau cynnydd o ran gwaith gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus i gasglu data cyson ynghylch amlygrwydd CSE yng Nghymru.

## Prosiect Pontio'r Cenedlaethau

Buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i archwilio ffyrdd o ddileu'r rhwystrau rhwng pobl iau a hŷn, a sut gallai'r ddau grŵp ddysgu sgiliau newydd oddi wrth ei gilydd.

"'Ollie (bl6): "Dyna'r peth gorau rwy wedi gwneud ERS OESOEDD! Rydw i'n edrych ymlaen ato fe bob wythnos, ac mae'n rhoi agwedd bositif i fi."

"Hashem (bl5) "Mae'n helpu fi i ddeall sut gallai bod yn henach deimlo, a hefyd i fod yn fwy amyneddgar."

Fe wnaethon ni ddatblygu Adnodd Pontio'r Cenedlaethau, gan gynnwys tair fideo sy'n dangos effaith gadarnhaol bosibl prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chynllun gwers i helpu athrawon i archwilio'r posibilrwydd o gychwyn grŵp pontio'r cenedlaethau gyda'u disgyblion. Hefyd fe wnes i bennu hyn fel Tasg Arbennig, a bu o leiaf 16 o ysgolion yng Nghymru yn cymryd rhan.

## Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Yn 2017 roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau'r cyllid ar gyfer Rhaglen Cyswllt Heddlu unigryw Cymru, heb gynnal Asesiad Effaith ar Hawliau Plant. Mae Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn rhaglen atal troseddu ac amddiffyn plant sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a phedwar Heddlu Cymru.

Mae gan bob un o ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru swyddog cyswllt heddlu sy'n cyflwyno gwersi ar themâu camddefnyddio sylweddau, diogelwch personol a materion ysgol a chymuned. Maen nhw hefyd yn helpu i ymateb i ddigwyddiadau ac i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r byd arlein — yn cynnwys seiberfwlio, secstio, ac ecsbloetiaeth.

Yn dilyn cyfarfodydd gyda Chyd-drefnydd Cenedlaethol y gwasanaeth, Y Bwrdd Cyfiawnder Iechyd, ac Uwch Swyddogion yr Heddlu, argymhellais i Lywodraeth Cymru bod angen cytuno ar fodel ariannu er mwyn cynnal parhad y rhaglen. Rwy'n falch o ddweud bod y cyllid wedi cael ei ailsefydlu, a bod adolygiad ar waith, a fu'n casglu barn pobl ifanc, i adolygu effaith y rhaglen.

# Amcan Strategol: Cynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a hyrwyddo'i fabwysiadu ar draws gwasanaethau cyhoeddus

"Erbyn 2019, rwy'n gobeithio y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun"

Yn fy Nghynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc: 2016-19, fe nodais fy ymrwymiad i annog gwasanaethau cyhoeddus i ymrwymo i CCUHP a gwella sut maen nhw'n cynllunio ac yn darparu eu gwasanaethau o ganlyniad.

Fy nod oedd dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y Llywodraeth, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni o blaid hawliau plant.

Dyma sut mae fy nhîm a minnau wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn:

## Cynllun Llysgenhadon y Comisiynydd Plant

Mae fy nghynllun Llysgenhadon wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod plant a phobl ifanc ledled Cymru yn ymwneud â'm gwaith. Mae Llysgenhadon yn fy nghefnogi yn fy rôl i hybu hawliau plant, yn eu hysgolion a'u cymunedau, ac yn darparu sylfaen systematig i ni alluogi plant a phobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd i ddylanwadu ar ein gwaith.

Mae tair swydd wahanol gan y Llysgenhadon, sef:

-Rhoi gwybod i eraill am y Comisiynydd a'i phwerau;
-Sicrhau bod eraill yn gwybod am hawliau plant o dan CCUHP;
-Cyflawni tasgau arbennig ar gyfer y Comisiynydd — mae'r rhain yn llywio gwaith ein swyddfa ac yn cael effaith wirioneddol ar ein gwaith ac ar hawliau plant yng Nghymru.

**Mae gennym ni dri Chynllun Llysgenhadon gwahanol:**

Llysgenhadon Gwych: Disgyblion ysgol gynradd yw'r rhain, sy'n cael eu hethol gan eu hysgolion i ddweud wrth ddisgyblion eraill am y Comisiynydd, ei phwerau, ac i helpu eu hysgolion i hybu hawliau plant.

Llysgenhadon Uwchradd: Dyma'r cynllun ar gyfer ysgolion uwchradd. Maen nhw'n cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau yn eu hysgolion ac yn cyflawni Tasgau Hawliau, i helpu i lywio ein gwaith.

Llysgenhadon Cymunedol:  Plant a phobl ifanc sydd wedi gwirfoddoli fel aelodau o'u grŵp cymunedol lleol neu eu grŵp diddordeb arbennig. Trwy eu Tasgau Arbennig, maen nhw wedi helpu fy nhîm gyda'u gwaith ymchwil a'u hymchwiliadau i dlodi, cydraddoldeb, bwlio a bywyd mewn gofal preswyl. Maen nhw wedi helpu i roi llais cryf i grwpiau o bobl ifanc sydd ar y cyrion, ac wedi dylanwadu ar newid polisi cadarnhaol yn y meysydd hyn.

Trwy eu tasgau arbennig, maen nhw wedi helpu fy nhîm ar eu gwaith ar dlodi plant, cydraddoldebau, bwlio, a gofal preswyl. Maen nhw wedi helpu rhoi llais cryf i grwpiau sydd ar y cyrion, ac wedi dylwanadu yn bositif ar newidiadau polisi yn y meysydd yma.

Gwerthuso'r Cynllun Llysgenhadon

Roedd 75.9% o blant yn gwybod beth oedd hawliau plant;
Roedd 58% yn gwybod am y Comisiynydd;
Roedd 76.2% o athrawon wedi cyflwyno gwers ar hawliau plant;

**Ers 2015...**
-Bu cynnydd o 147% yn y Llysgenhadon Gwych
-Bu cynnydd o 50% yn y Llysgenhadon Uwchradd
-Cyflawnwyd 9 Tasg
-Cynhaliwyd 22 o ddigwyddiadau

Mae rôl bwysig i'r Cynllun Llysgenhadon wrth gyflawni blaenoriaethau Cynllun Gwaith 2016-19, drwy sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfranogi yn ein prosiectau, ond hefyd eu bod yn fy nghefnogi i, fel Comisiynydd, i hybu hawliau plant ledled Cymru.

Rydyn ni wedi cynnal digwyddiadau hyfforddi ar gyfer ein Llysgenhadon Gwych ledled Cymru ym mis Hydref bob blwyddyn, sydd nawr wedi cael eu mynychu gan dros 900 o blant. Rydym hefyd wedi cynnal digwyddiadau 'clwstwr' ychwanegol gydag ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, mewn ymateb i lefel uchel o alw a diddordeb.

Bob blwyddyn, ers 2015, rydyn ni wedi adolygu'r cynllun i helpu i ehangu'r rhwydwaith o lysgenhadon a'i wneud yn fwy hygyrch.

Yn 2017-8 fe wnaethon ni gomisiynu gwerthusiad allanol o'r cynllun cynradd gan WISERD.

Yna yn 2018-9, mewn ymateb i'r gwerthusiad allanol hwn, datblygwyd y cynllun i sicrhau ei fod yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys mewn lleoliadau AAA. Buon ni'n ymgynghori â mwy na 36 o leoliadau addysg, dros 50 o weithwyr addysg proffesiynol, a mwy na 150 o blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i ddarganfod beth fyddai'n helpu pob plentyn i elwa i'r eithaf o'r cynllun. Trwy weithio gyda phobl broffesiynol a phobl ifanc fe wnaethon ni ddatblygu cyfres o adnoddau hygyrch oedd yn cynnwys posteri symbolau darllen hwylus, adnoddau BSL a delweddau, fel bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddysgu am eu hawliau, a bod eu barn yn gallu helpu i lywio gwaith y Comisiynydd. Dyblodd nifer y lleoliadau Anghenion Addysgol Arbennig oedd yn chwarae rhan weithredol yn y cynllun yn ystod 2018-19, ac ym mis Mawrth 2019 roedd 14 o leoliadau'n rhan ohono.

Yn 2016, cychwynnon ni gynllun Uwchradd o'r enw Llysgenhadon Uwchradd (gyda pheilot bach o 6 lleoliad yn 2015-16, a lansio ledled Cymru ym mis Medi 2016, cyn i hynny ehangu i'r niferoedd presennol). Cynhalion ni ein cynadleddau cyntaf Llysgenhadon Uwchradd yn y gogledd a'r de ym mis Ionawr 2019.

## Ffordd Gywir

Fy rôl i fel Comisiynydd yw cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a sicrhau bod sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn eu cydnabod nhw hefyd. Er mwyn helpu sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru gyda hyn, bu fy nhîm a minnau'n gweithio mewn partneriaeth ag Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc i greu Y Ffordd Gywir.

Fframwaith yw hwn ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, i helpu i wreiddio hawliau plant yn eu penderfyniadau, eu polisi a'u hymarfer. Mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i gyfrannu at wireddu hawliau plant. Mae Y Ffordd Gywir yn annog y cyrff hyn i wireddu eu dyletswyddau ac mae'n nodi sut mae cyflawni hynny trwy ddilyn egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

Rydyn ni wedi llunio tri fframwaith: *"Y Ffordd Gywir"* ar gyfer cyrff cyhoeddus, *"Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Addysg yng Nghymru"* i ysgolion ac *" Y Ffordd Gywir: Dyfodol Addas i Blant"*, a ddatblygwyd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu Nodau Llesiant trwy Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

Dyma egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant:

- **Gwreiddio hawliau plant** — sicrhau bod hawliau plant yn rhan greiddiol o gynllunio a darparu gwasanaethau.

- **Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu** — sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y y gorau mae'n gallu bod.

- **Grymuso plant** — gwella galluoedd plant fel unigolion, fel eu bod yn gallu manteisio'n well ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u galw i gyfrif.

- **Cyfranogiad** — gwrando ar blant a chymryd eu barn i ystyriaeth mewn modd ystyrlon.

- **Atebolrwydd** — dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae fy nhîm wedi bod yn gweithio gyda nifer o sefydliadau yng Nghymru i'w helpu i wireddu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Buon ni'n gweithio gyda'r canlynol:

## Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

Yn dilyn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a Llywodraethwr y Parc, maen nhw wedi gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn eu hymarfer. Gan ddilyn egwyddorion "Y Ffordd Gywir", rydym wedi cefnogi'r Parc i ganfod ffyrdd ymarferol o roi Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar waith yn yr uned addysg yno. Mae'r holl bobl ifanc yn y Parc yn cael eu dysgu am eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill. Mae staff uwch wedi dweud wrthyn ni bod y berthynas rhwng y staff a'r bobl ifanc wedi gwella a bod y bobl ifanc yn cymryd mwy o ddiddordeb yn eu haddysg o ganlyniad.

## Heddlu De Cymru

Fe gyflwynon ni sesiwn hyfforddi gyda chomand Aur Heddlu De Cymru: uwch arweinyddion yr heddlu. Maen nhw wedi ymrwymo i wreiddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwaith, a'u bwriad yw datblygu siarter hawliau plant ar gyfer pobl ifanc, yn dangos iddynt sut byddan nhw'n cynnal ac yn hybu eu hawliau dynol. Rydym hefyd wedi eu helpu i lunio'u strategaeth cyfranogiad, gan sicrhau bod eu dull o ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cynnwys egwyddorion Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.

## Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Maen nhw wedi datblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd ifanc, yn arbennig o grwpiau a dangynrychiolir. Maen nhw hefyd wedi dechrau gwreiddio hawliau plant mewn polisïau sy'n dylanwadu ar ddiogelu, atebolrwydd a chydraddoldeb.

## Byrddau Iechyd Lleol

Ym mis Gorffennaf 2019, fe gynhalion ni ein trydedd seminar Cymru Gyfan ar Iechyd Plant. Roedd yn gyfle i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru ddod ynghyd i drafod hawliau plant mewn cyd-destun iechyd. Ers hynny, mae sawl bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran rhoi eu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, gan gynnwys bwrdd iechyd ieuenctid newydd, deinamig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a phenderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i fabwysiadu safonau cyfranogiad Cymru.

## Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Rhoddwyd Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar waith, a dechrau trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc (8-18 oed) i gasglu adborth ar "Beth yw eu disgwyliadau wrth ddefnyddio unrhyw rai o'n gwasanaethau". Yna defnyddiwyd yr adborth hwn i ddatblygu set o "Addewidion ar gyfer Plant a Phobl Ifanc".

## Ysgolion

Bu 6392 o blant a phobl ifanc a 391 o athrawon yn cymryd rhan yn ein harolwg i fesur i ba raddau mae disgyblion yn profi eu hawliau yn yr ysgol. Roedd cwestiynau'r arolwg yn troi o gwmpas pum egwyddor ein Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant. Cafodd pob ysgol a gwblhaodd yr arolwg adroddiad personol, dienw, yn dangos sut roedd atebion eu disgyblion yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Defnyddiodd ysgolion eu hadroddiadau i bennu targedau hawliau plant ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Y flwyddyn nesa byddwn ni'n cynnal yr un arolwg, fel bod ysgolion sy'n dychwelyd yn gallu mesur eu cynnydd.

Un o brif negeseuon y canlyniadau oedd bod pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn teimlo eu bod nhw'n cael llai o gyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau yn eu hysgol, o gymharu â phlant yn yr ysgol gynradd. O ganlyniad, bydd ein swyddfa'n gwneud darn penodol o waith y flwyddyn nesaf i edrych ar effeithiolrwydd cynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd.

## Senedd Ieuenctid

Pan ddes i'n Gomisiynydd Plant yn 2015, doedd gan Gymru ddim lle democrataidd penodol ar gyfer ei phobl ifanc. Un o'm hargymhellion cyntaf oedd y dylai Cymru sefydlu ei chynulliad ieuenctid ei hun. Does dim angen dweud, pan eisteddodd Senedd Ieuenctid Cymru am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019, bod honno'n funud arloesol ar gyfer democratiaeth yng Nghymru a gwireddu ymrwymiad Cymru i hawliau plant.

Mae'r funud newydd gyffrous hon yn hanes gwleidyddol Cymru nid yn unig yn cyflawni hawl pobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ond hefyd yn cydnabod pwysigrwydd lleisiau pobl ifanc ac yn helpu i lunio dyfodol gwell.

Croesawodd pobl ifanc Cymru y cyfle hwn â breichiau agored, a safodd bron 500 o ymgeiswyr am y 40 sedd ranbarthol. Mae 20 arall wedi cael eu llenwi gan bobl ifanc o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd trwy sefydliadau partner, gan gynnwys dau aelod o'm panel ymgynghorol pobl ifanc innau.

Er bod hwn yn ddatblygiad eithriadol o gadarnhaol i sicrhau cyfranogiad a chynrychiolaeth pobl ifanc ar lefel genedlaethol, bydd fy nhîm yn parhau i ymgysylltu â thîm cefnogi'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod y Senedd Ieuenctid yn gallu craffu ar fy ngwaith, ac ar waith y Llywodraeth, ar ran holl blant a phobl ifanc Cymru.

Ym mis Hydref 2019 cynhaliodd y Senedd Ieuenctid ei sesiwn graffu gyntaf gyda fi, a'm galw i gyfrif ynghylch sut rydw i'n gweithio o blaid hawliau plant ac yn eu diogelu yng nghyswllt iechyd meddwl.

## Cwricwlwm newydd Cymru

"Rwy'n argymell bod …. Y cwricwlwm newydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu am eu hawliau".

Nid elfen ychwanegol ddewisol neu rywbeth braf i'w gael yn ogystal yw hawliau dynol plant. Dylen nhw fod yn rhan sylfaenol o brofiad beunyddiol plant a phobl ifanc, ac yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Amlygodd fy Arolwg Addysg, Y Ffordd Gywir, o 6392 o blant a phobl ifanc a 391 o weithwyr proffesiynol, angen am wella pob un o'r pum egwyddor sy'n rhan o ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ym maes addysg ledled Cymru.

Gyda golwg ar y nod hwn, mae fy swyddfa wedi bod yn rhan o'r Grŵp Cynghori Annibynnol a'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, ac wedi ymgysylltu'n rheolaidd ag uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru, ac arweinwyr arloesi Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant a'r Dyniaethau. Dangosodd fy mhapur safbwynt ar ddiwygio'r cwricwlwm brif fanteision addysg hawliau dynol i blant, a sut mae hawliau dynol plant yn gysylltiedig â phob un o'r Pedwar Diben a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad sy'n datblygu.

Mae'r cwricwlwm drafft yn cynnwys yn benodol ofyniad bod pob plentyn yn dysgu am eu hawliau o dan CCUHP ac yn eu deall, a'u bod yn datblygu sgiliau i eiriol dros eu hawliau eu hunain ac eraill.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn fy argymhelliad i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn galluogi pob plentyn i ddysgu am eu hawliau o dan CCUHP. Fodd bynnag, bydd fy nhîm a minnau'n parhau i bwyso am roi sylw dyledus i hawliau plant yn y Bil Cwricwlwm.

Fe ddefnyddiais fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 i argymell y canlynol:
*Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaus i hawliau dynol plant dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno dyletswydd ar bob corff perthnasol i roi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Dylid gosod y ddyletswydd hon ar wyneb y Bil Cwricwlwm ac Asesu.*

## Eiriolaeth: Parch at farn y plentyn

Mae eiriolaeth wedi bod yn fater allweddol i'r swyddfa hon ers dros ddegawd, ac mae pob un o'r tri Chomisiynydd wedi ymgyrchu dros well mynediad at y mesur diogelu pwysig hwn ar gyfer plant a'u hawliau.

Cyhoeddodd fy rhagflaenydd gyfres o adroddiadau 'Lleisiau Coll', oedd yn amlygu pwysigrwydd eiriolaeth i ddiogelu a hybu hawliau plant sydd mewn gofal neu'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau cymdeithasol. Dangosodd yr adroddiadau hynny nad oedd gan lawer o bobl ifanc unrhyw syniad beth oedd eiriolaeth annibynnol, sut gallai eu helpu nhw, na sut roedd cael mynediad iddo. Arweiniodd hynny at gyfres hir o waith a gydlynwyd gan Lywodraeth Cymru a'r WLGA/ADSS i roi sylw i'r pwynt hwn, gydag ysgogiad cryf gan y swyddfa.

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddau ymchwiliad i fesur cynnydd yn y gwaith hwn, ac fe roddais i dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r ail ymchwiliad yn 2016. Daeth y gwaith hwn i ben ym mis Mehefin 2017 pan gyflwynwyd y Cynnig Gweithredol ar gyfer eiriolaeth fel rhan o Ddull Gweithredu Cenedlaethol cytunedig ar gyfer

Eiriolaeth Statudol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnwys mesurau i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc, i sbarduno cysondeb yng nghyswllt caffael a chontractau, ac i fonitro nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar hyn a'r canlyniadau iddynt.

Ers hynny rydym ni wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau pwysig fel NYAS, Plant yng Nghymru, TGP Cymru a Lleisiau o Ofal i fonitro gwaith Llywodraeth Cymru yn estyn cwmpas y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol. Rydym hefyd yn monitro ymwybyddiaeth o eiriolaeth a'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig trwy achosion sy'n cyrraedd ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor. Rydym wedi parhau i ddelio gyda nifer o achosion lle nad yw pobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i gael gwasanaethau eiriolaeth, felly byddwn ni'n parhau i'w cyfeirio ymlaen at ddarparwyr eiriolaeth trwy'r gwaith hwn.

Rwy'n falch o nodi bod y Dull Gweithredu Cenedlaethol bellach yn fyw ar draws holl ranbarthau Cymru. Mae hynny'n golygu bod hawl gan yr holl blant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol i gael eiriolydd annibynnol, proffesiynol i'w cefnogi i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at eiriolaeth ar gyfer materion cysylltiedig â iechyd. Fe wnes i gyflwyno argymhellion yn 2017/18 bod byrddau iechyd yn cynnal archwiliad o'u darpariaeth eiriolaeth gyfredol, ac yn edrych ar sut mae modd gwella hynny er mwyn i bobl ifanc gael mynediad i'r gefnogaeth bwysig hon. Fodd bynnag, er bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn fy argymhelliad, nid oes fawr ddim wedi newid o ran polisi i bobl ifanc, ac mae eiriolaeth ym maes iechyd yn anghyson iawn ar draws Cymru.

## Addysg Gartref

Yn fy nhri adroddiad blynyddol diwethaf rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau polisi sylweddol er mwyn sicrhau nad yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn anweledig, a'u bod yn derbyn eu holl hawliau dynol: mae hyn yn cynnwys eu hawl i gael addysg, eu hawl i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u hawl i fod yn ddiogel.

Mae fy ngalwadau wedi cael eu llywio gan ymchwil CASCADE, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a ganfu nad yw plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael cystal mynediad at wasanaethau cyffredinol, o gymharu â phlant sy'n cael eu haddysgu yn yr ysgol. Rwyf wedi bod yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau newydd, gan fod polisi ac ymarfer cyfredol yn gadael rhai plant mewn perygl o golli eu hawl ddynol i gael addysg, ac mewn achosion prin mae diffyg mesurau diogelu wedi golygu bod risg i ddiogelwch plant.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru fy argymhelliad yn 2016-17 mewn egwyddor, ac ym mis Ionawr 2018 cyhoeddodd y byddai mesurau newydd i adnabod plant a chaniatáu rhannu gwybodaeth ar draws sectorau yn cael eu rhoi ar waith o dan fframwaith deddfwriaethol Deddf Plant 2004. Yn 2018 fe wnes i argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r polisi a ddiweddarwyd ar gyfer ymgynghori, gyda'r nodau o fodloni'r tri phrawf canlynol yn llawn:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol a'r gymdeithas yn ei chrynswth;
- Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch;
- Yn drydydd, nad oes modd cyflawni hynny heb roi cyfle i bob plentyn gael eu gweld, a gwrando ar eu barn a'u profiadau, gan gynnwys eu barn am eu haddysg.

Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru yn eu hymateb ysgrifenedig i'm hadroddiad blynyddol ym mis Rhagfyr 2018, a chadarnhaodd Prif Weinidog Cymru yn bersonol eu bod wedi'i dderbyn.

Oherwydd pryderon ynghylch diffyg cynnydd, yn ystod cyfnod 2018-19 fe wnes i'r Llywodraeth yn ymwybodol fy mod i'n ystyried defnyddio fy mhwerau cyfreithiol i adolygu datblygiad y maes polisi hwn, gan gadw'r opsiwn o adolygu ar unrhyw adeg, petawn i'n pryderu nad oedd y Llywodraeth yn ymarfer eu swyddogaethau i sicrhau bod nodau polisi priodol yn cael eu cyflawni.

Mae fy swyddfa a minnau wedi bod yn asesu datblygiad canllawiau statudol i weld a ydynt yn medru bodloni fy nhri phrawf. Gwnaed hynny trwy ein presenoldeb ar y grŵp rhanddeiliaid Dewis Addysgu Gartref; trwy nifer o gyfarfodydd rhyngof fi, fy swyddogion ac uwch-swyddogion y llywodraeth; a thrwy adolygiad parhaus o adrannau o'r canllawiau wrth iddyn nhw gael eu datblygu.

Bues i hefyd yn trafod y maes polisi hwn yn uniongyrchol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Addysg ym mis Hydref 2018 a Phrif Weinidog Cymru ar y pryd ym mis Tachwedd 2018, ac fe ges i fy sicrhau bod nod y polisi'n cyfateb i'r hyn roeddwn i wedi bod yn galw amdano.

## Cynnydd ac argymhelliad

Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi ymateb i'm hymwneud parhaus â datblygiad y maes polisi hwn, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau yn ystod haf 2019. Hefyd mae swyddogion y Llywodraeth wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys teuluoedd sy'n addysgu gartref ac awdurdodau

lleol. Rwy'n dal i wneud y llywodraeth yn ymwybodol fy mod i'n cadw'r opsiwn i ddefnyddio fy mhwerau i adolygu os bydd datblygiad parhaus y polisi hwn yn methu â bodloni'n llawn y tri phrawf maen nhw wedi'u derbyn. Yn fy Adroddiad Blynyddol 2018/19, fy argymhelliad oedd bod rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith a fyddai'n bodloni fy nhri phrawf yn llawn yn 2020, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu ble bynnag maen nhw'n cael eu haddysgu.

## Mynediad at addysg i rai mewn Cadeiriau Olwyn

Yn 2017/18 buon ni'n dilyn ymlaen o'n hadroddiad 'Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal?' ym mis Tachwedd 2014, oedd yn amlygu pryderon ynghylch mynediad i ddisgyblion ysgol uwchradd mewn cadair olwyn yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac yn gofyn iddyn nhw ddiweddaru eu canllawiau ar fynediad i ddisgyblion anabl, ac i sicrhau bod y rhai oedd yn adeiladu ysgolion newydd o ran raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn dangos eu bwriadau i gynyddu hygyrchedd. Gofynnwyd hefyd i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob Awdurdod Lleol ac ysgol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Buon ni'n cysylltu â phob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru ac yn siarad â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO). Roedden ni am gael gwybod a yw Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cynyddu mynediad at addysg i ddisgyblion yng Nghymru. Roedden ni am wybod hefyd a yw plant a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth glir ynghylch hygyrchedd mewn ysgolion yn eu hardal, er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus a sicrhau bod plant yn gallu mynd i'w dewis ysgol, ar y cyd â'u ffrindiau. Cyhoeddwyd yr adroddiad dilynol ym mis Mawrth 2018. Roedd yr adroddiad hwn yn amlygu gwelliannau cyffredinol yn ymwybyddiaeth ysgolion ac awdurdodau lleol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond mae'n dal yn wir ei fod yn eithriadol anodd i blant a'u teuluoedd gael gwybodaeth pan fydd angen iddynt wneud penderfyniadau ynghylch lleoedd ysgol.

**CYNNYDD: Yn eu hymateb i'r adroddiad hwn ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda'm swyddfa i er mwyn diwygio'u canllawiau i adlewyrchu'r pwyntiau hyn. Bydd fy nhîm a minnau yn parhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cyfranogi yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac yn gallu cael mynediad cyfartal i ysgolion.**

# Amcan Strategol: Pontio i oedolaeth ar gyfer pob person ifanc sydd angen gofal a chefnogaeth parhaus

Yn fy Nghynllun ar gyfer pob Plentyn a Pherson Ifanc, fe nodais fy mwriad i lansio prosiect tair blynedd a fyddai'n gwella'r pontio o blentyndod i oedolaeth ar gyfer y rhai hynny sydd angen cefnogaeth a gwasanaethau — mae hyn yn cynnwys ymadawyr gofal a'r rhai â chyflyrau iechyd cronig ac anableddau.

Ers dod yn Gomisiynydd Plant yn 2015, mae materion ynghylch pontio ar draws pob gwasanaeth wedi cael eu codi gyda fi gan bobl ifanc, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, sydd wedi canfod nad yw'r pontio rhwng gwasanaethau bob amser yn llyfn, yn brydlon nac yn hawdd cael hyd i ffordd trwyddo. Mae pobl ifanc neu'r rhai sy'n eu cefnogi yn cysylltu'n rheolaidd â'm tîm Ymchwiliadau a Chyngor gyda phryderon o'r math yma.

Yn 2016, fe gyflwynais fy ngobeithion, sef:

**Erbyn 2019, y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau bod ymadawyr gofal yn cael gwell mynediad at opsiynau tai diogel a sicr, a chynnig gweithredol swydd, addysg neu le mewn hyfforddiant, ac y bydd pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol barhaus yn cael profiad gwell o bontio i wasanaethau oedolion.**

Er mwyn chwarae ein rhan wrth gyflawni'r nodau hyn, mae amlygu profiadau pobl ifanc o bontio wedi bod yn ffocws allweddol i'n gwaith. Mae fy swyddfa wedi cynhyrchu dau adroddiad ar bontio: un yn canolbwyntio ar bontio i oedolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ac un arall yn canolbwyntio ar uchelgeisiau ymadawyr gofal a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth adael gofal. Fel ei gilydd, bu'r adroddiadau'n gweithio'n agos gyda phobl ifanc oedd yn profi pontio yn eu gofal a'u cefnogaeth, ac yn cynhyrchu nifer o argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd eu rhoi ar waith er mwyn gwella'u gwasanaethau i bobl ifanc.

Beth mae pobl ifanc wedi'i ddweud wrthyn ni?

"Er mod i'n 18, mae angen cefnogaeth arna i o hyd"

"Mae bod mewn llety byw'n annibynnol yn fy llethu ac yn gwneud i mi deimlo'n ynysig. Does gen i ddim sgiliau coginio na chadw'n iach, a sut mae cofrestru gyda deintydd, er enghraifft?"

"Trefnu cartref preswyl ar gyfer pobl dros 18, yn hytrach na'u symud o'r cartref preswyl ar ôl iddyn nhw droi'n 18"

Ond oes digon wedi newid? Er ein bod wedi gweld rhai datblygiadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sy'n pontio rhwng gwasanaethau, dwy ddim yn hyderus bod y prosesau'n glir i bobl ifanc a'r rhai sy'n eu cefnogi.

Mae'n dal i fod yn rhan bwysig o lwyth achosion ein tîm Ymchwiliadau a Chyngor. Mae pobl ifanc yn syrthio rhwng y bylchau mewn gwasanaethau. Yn rhy aml mae'r rhai sy'n 16 ac 17 oed yn cael eu hystyried yn "oedran anodd", heb ffitio i wasanaethau plant nac oedolion. Nid yw hynny'n dderbyniol.

Byddwn wedi gobeithio gweld mwy o gynnydd yn y maes hwn. Er enghraifft, byddwn wedi hoffi gweld mwy o gynnydd tuag at bob person ifanc sy'n gadael gofal yn cael llety diogel, addysg a chynnig cyflogaeth neu hyfforddiant. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at hyn, ond dyw'r newid ddim wedi digwydd yn gyson ar gyfer pobl ifanc.

**Dyna pam bydd fy nhîm a minnau'n parhau i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd er mwyn sicrhau bod pontio o ran gwasanaeth a chefnogaeth yn ddi-fwlch, yn hygyrch ac yn hwylus ar gyfer pobl ifanc.**

## Y Gofal Cywir: Profiadau pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant

Yn 2016, roeddwn i am sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag oedd eu cefndir neu eu hamgylchiadau, yn cael mynediad i'w hawliau. Cwrddodd fy nhîm a minnau â phlant oedd yn byw mewn cartrefi preswyl mewn 19 o 22 awdurdod lleol Cymru, er mwyn dysgu mwy am eu profiadau. Er bod rhai plant yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yn eu cartref, fe ddysgais i'n fuan nad yw llawer o blant sy'n byw mewn gofal preswyl yn derbyn eu hawliau bob amser, nad oeddent yn teimlo bod ganddynt reolaeth ar y penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud yn eu cylch, a'u bod yn wynebu heriau wrth gael mynediad i addysg a symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

**Argymhellion y Gofal Cywir:**

- Mae angen cynnwys pobl ifanc yn well yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gofal;
- Mae angen cynllunio gwell cyn lleoli yn achos plant sy'n cael eu symud allan o'r ardal, fel eu bod yn dal i gael mynediad i'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen;
- Mae angen i ddarparwyr gofal, yr Heddlu ac Arolygiaeth Gofal Cymru edrych ar sut mae atal troseddoli pobl ifanc yn ddiangen;
- Archwilio estyn "Pan Fydda i'n Barod" i bobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl, fel bod ymadawyr gofal yn cael mynediad cyfartal at gefnogaeth.

Fe ddysgais i hefyd fod plant yn teimlo'n anghyfforddus am y ffaith bod elfen o elw yn y gofal maen nhw'n eu dderbyn. **Dywedodd pobl ifanc wrthyf fi eu bod nhw'n teimlo bod penderfyniadau am eu gofal yn cael eu gwneud ar sail cost yn hytrach na'u lles pennaf. Dyna pam cyflwynais i argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17 i gynyddu'r ystod o wasanaethau nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.**

**Yn adroddiad 2018-19 fe ddychwelais at y pwnc hwn, ac argymell bod…**

***"rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gymryd camau pendant o fewn y flwyddyn nesaf tuag at leihau ac yn y pen draw ddileu gwneud elw ym maes gwasanaethau gofal plant, heb gael effaith niweidiol ar drefniadau gofal cyfredol plant a phobl ifanc."***

Roedd adroddiad Y Gofal Cywir yn ceisio adfywio trafodaeth genedlaethol ar ofal preswyl ac yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n comisiynu, yn arolygu ac yn rheoleiddio cartrefi plant ynghylch sut gellid gwella'r gofal sy'n cael ei ddarparu i bobl ifanc.

## Oes cynnydd wedi digwydd?

**Mehefin 2016:** cyhoeddwyd adroddiad ar hawliau pobl ifanc sy'n byw mewn gofal preswyl ac yn ei adael. Derbyniwyd pob un o'r argymhellion yn llawn gan Brif Weinidog Cymru.

**Chwefror 2017:** roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Preswyl Plant wedi derbyn a chynnwys ein holl argymhellion yn ei gynllun gwaith.

**Medi 2018:** ar ôl mynegi pryderon ynghylch arafwch cynnydd y Grŵp, darparodd Llywodraeth Cymru £100,000 i symud gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei flaen

**Nawr:** bu diffyg cynnydd o ran datblygu darpariaeth gadael gofal amgen ar gyfer plant sydd wedi byw mewn gofal preswyl, ac ni wnaed fawr ddim gwaith i ymdrin â lefelau uchel troseddoli pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi preswyl. Er fy mod i'n ymwybodol o ambell wasanaeth nid-er-elw a reolir gan awdurdodau lleol, sy'n cael eu datblygu ar gyfer plant mewn gofal, nid yw hynny'n cael ei yrru ymlaen ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

Dyna pam rwyf wedi dychwelyd, yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19, at alwadau am sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl yn gallu cael mynediad i lefel gyfatebol o gefnogaeth i'r hyn a gynigir i'r rhai sy'n gadael gofal maeth gyda threfniant Pan Fydda i'n Barod.

**Dylai Llywodraeth Cymru wneud cynnydd mwy pendant ar estyn yr hyn y gellir ei hawlio fel rhan o'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod', er mwyn darparu lefel gyfatebol o gefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal preswyl. Dylid sicrhau hynny ar sail statudol.**

## Gwell Cefnogaeth ar gyfer Ymadawyr Gofal

Trwy fy nigwyddiadau ymgynghori â phobl ifanc â phrofiad o ofal yn 2015 a 2016, fe glywais negeseuon cyson a chryf gan ymadawyr gofal — rhai oedd yn gadael gofal maeth yr awdurdod lleol neu ofal preswyl — ynghylch y gwahanol lefelau o gefnogaeth maen nhw'n eu derbyn gan eu hawdurdod lleol fel rhiant corfforaethol. Fe glywais hefyd yn fanwl am uchelgeisiau pob un ohonynt at y dyfodol, a'r help bydden nhw'n hoffi ei dderbyn er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hynny.

Er i mi glywed am lawer o enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol yn darparu opsiynau cymorth arloesol ac ymarferol, a chyrsiau hyfforddiant a phrentisiaeth wedi'u teilwra ar gyfer ymadawyr gofal, clywais hefyd sut mae'r darlun yn amrywio ar draws y wlad.

Yn 2015, fe wnaethon ni lansio Ap Fy Nghynllunydd i helpu ymadawyr gofal sy'n symud tuag at fyw'n annibynnol. Roedd yn darparu gwybodaeth i ymadawyr gofal ifanc am eu hawliau a'r pethau y dylen nhw eu cael.

Yn dilyn y sgyrsiau gawson ni yn 2015 a 2016, fe gyhoeddon ni fy adroddiad Breuddwydion Cudd ym mis Mawrth 2017, adroddiad oedd yn cynnwys ymrwymiadau i ymadawyr gofal Cymru gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Roedd yr adroddiad yn amlygu'r angen am gefnogaeth barhaus i ymadawyr gofal hyd at 25 oed, ac yn cynnig nifer o argymhellion o ran newidiadau polisi ym meysydd hyfforddiant, cyflogaeth, addysg, cyngor a chymorth ariannol, y gallai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eu cyflawni er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i ymadawyr gofal.

O ganlyniad uniongyrchol i'm hadroddiad, ar 1 Mawrth 2017 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet Cymunedau a Phlant fwrsariaeth flynyddol o £1 filiwn ar gyfer ymadawyr gofal — Cronfa Dydd Gŵyl Dewi — y mae modd i ymadawyr gofal ei defnyddio i gael mynediad at gyllid ar gyfer eitemau neu hyfforddiant sy'n cefnogi pontio llwyddiannus i annibyniaeth ar eu cyfer.

Ar ben hynny, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i archwilio'r opsiynau ar gyfer lleihau tlodi ymhlith ymadawyr gofal, estyn eu hawl i dderbyn cefnogaeth gan ymgynghorwyr personol hyd at 25 oed, a sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth glir, wedi'i diweddaru, ynghylch y pethau y dylen nhw eu cael.

Ategodd fy adroddiad blynyddol yn 2016/17 yr angen i Lywodraeth Cymru gyflawni ei holl ymrwymiadau a nodwyd yn adroddiad Breuddwydion Cudd, gan gynnwys cefnogaeth gyfartal i bob ymadawr gofal, p'un a ydynt wedi dod o ofal maeth neu ofal preswyl, cyllid ar gyfer ymgynghorwyr personol i gefnogi pob ymadawr gofal hyd at 25 oed, cyhoeddi gwybodaeth glir i ymadawyr gofal ar faterion ariannol a gwarantu cefnogaeth ariannol ar gyfer ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch, a bod hynny'n cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru.

✓ Bwrsariaeth o £1 filiwn i ymadawyr gofal
✓ Eithrio ymadawyr gofal o dreth y Cyngor
✓ Estyn cefnogaeth a chyllid ar gyfer ymgynghorwyr personol
✓ £625,000 i gefnogi lleoliadau gwaith a rhai dan hyfforddiant

O ganlyniad i'n gwaith dylanwadu wedi i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, dyrannwyd £625,000 ychwanegol i gefnogi lleoliadau gwaith / lleoedd dan hyfforddiant i ymadawyr gofal. Mewn ymateb i hyn, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid pellach i awdurdodau lleol fedru ymateb i'n galwad am gefnogaeth Ymgynghorydd Personol ar gyfer pob ymadawr gofal hyd at 25 oed. Mae pob awdurdod lleol bellach wedi eithrio eu hymadawyr gofal o dalu treth y cyngor, yn dilyn fy argymhellion i ddileu'r rhwystr hwn.

Yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19, fe alwais am newidiadau statudol i'r gefnogaeth gan Ymgynghorydd Personol:
"Dylai Llywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau hawl pob ymadawr gofal i gael Ymgynghorydd Personol hyd at 25 oed."

Yn 2017/18, fe gyflwynais i argymhellion pellach ynghylch ymadawyr gofal, gan bod plant mewn gofal preswyl, er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r newidiadau polisi yr oeddwn wedi'u hargymell, heb elwa o'r un lefel o gefnogaeth wrth adael gofal â'r rhai oedd oedd yn gadael gofal maeth, er enghraifft, gyda chynnig "Pan Fydda i'n Barod" ac opsiynau tai cyfatebol. Er bod hyn wedi cael ei dderbyn fel llif gwaith ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Preswyl, nid wyf yn hyderus bod ymadawyr gofal ifanc wedi gweld y newid yn eu cefnogaeth. Rwyf hefyd yn aros i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth glir ar faterion ariannol i ymadawyr gofal.

Mae gwaith yn dal i'w wneud ar draws awdurdodau lleol i sicrhau bod pob awdurdod yn cynnig yr un lefel o gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, hyd at 25 oed, gan nad wyf fi'n hyderus bod y polisïau ar gyfer ymadawyr gofal yn gyson. Bydd hyn yn parhau'n ffocws ar gyfer fy nhîm a minnau yn ystod y tair blynedd nesaf.

## Paid dal yn ôl: Pontio

Os bydd plentyn yn derbyn cefnogaeth am ba reswm bynnag (iechyd neu gymdeithasol), mae'n bwysig bod cefnogaeth yn cael ei rhoi iddynt dderbyn hynny wrth bontio i oedolaeth. Dyma pam rydyn ni wedi bod yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n cydnabod hynny.

Mae hawliau dynol plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael eu hamddiffyn gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA). Yng Nghymru mae gennym ni ddeddfwriaeth bwysig sy'n cydnabod yr hawliau hyn ac yn gofyn bod gwasanaethau'n troi o gwmpas anghenion pob person, yn cynnwys pobl yn y broses o gynllunio'u gofal eu hunain, a'u bod yn ataliol ac yn integredig. Y Deddfau hyn yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Trwy'r sgyrsiau a gawson ni gyda 99 o bobl ifanc, 187 o rieni a gofalwyr, a 43 o weithwyr proffesiynol, amlygodd yr adroddiad fod y Deddfau hyn yn methu darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i bobl ifanc ag anableddau dysgu wrth iddyn nhw symud at oedolaeth.

Amlygodd yr adroddiad yr angen am y canlynol:

- Cynnwys pobl ifanc yn well wrth gynllunio ar gyfer eu dyfodol;

- Mwy o gefnogaeth a chydnabyddiaeth i rôl rhieni a gofalwyr;

- Profiad mwy cydlynus a di-fwlch ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi sylw i wella profiad pobl ifanc;

- Gwell cyfleoedd i bobl ifanc fod yn ddinasyddion cyfartal a gweithredol trwy gyfleoedd cymdeithasol, addysg a chyflogaeth.

"Roedd gen i gynllun ar gyfer symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion, ond dwy ddim yn siŵr beth ddigwyddodd iddo fe."

"Dyw gwasanaethau oedolion ddim yn cydnabod rôl rhieni, felly rydych chi'n cael eich cau allan."

- Roedd naw argymhelliad i Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, ac Awdurdodau Lleol er mwyn gwella eu gwasanaethau i bobl ifanc.

Cyflwynodd yr adroddiad naw argymhelliad i Lywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ynghylch sut mae gwella'u gwasanaethau i bobl ifanc.

Bydd fy nhîm a minnau yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn. Yn hydref 2019 byddaf yn cwrdd â holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymru i weld sut maen nhw'n cynllunio'u gwasanaethau'n strategol ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd anghenion pobl ifanc ag anableddau dysgu yn ffocws allweddol i'r gwaith hwn.

Rwyf hefyd wedi defnyddio fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 i gyflwyno argymhellion pellach yn y maes hwn, er enghraifft:
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan fyrddau iechyd ganllawiau effeithiol a fydd yn arwain at blant a phobl ifanc yn cael mynediad at lwybrau amlasiantaeth cydlynus ar gyfer pontio i wasanaethau oedolion. Dylai plant a phobl ifanc ymwneud yn uniongyrchol â chreu eu cynlluniau gofal.

Dylai'r canllawiau hyn sicrhau hefyd bod pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd am y tro cyntaf, gan gynnwys gofal brys, yn cael llwybr clir at ofal oed-briodol.

# Diweddglo

Ni yw'r unig sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, felly rydyn ni am sicrhau ein bod ni'n cyflawni newid i'r rhai rydyn ni yma i'w cynrychioli, ac rydyn ni am fod yn atebol iddyn nhw.

Ers cychwyn yn y swydd, rydw i wedi bod yn benderfynol o sicrhau ein bod ni'n gadarn wrth asesu ein perfformiad o ran cyflawni ein haddewidion i blant a phobl ifanc, a'n bod ni'n dod yn sefydliad sy'n dysgu, ac yn gwella effeithiolrwydd gweithredol yn barhaus.

Diben yr adroddiad hwn yw cyflawni atebolrwydd, tryloywder ynghylch y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud o ran ein haddewidion i blant a phobl ifanc, a chadarnhau pa waith sydd ar ôl i'w wneud.

Rwy'n gobeithio bod y gwaith hwn yn cyfleu cyflawniadau sylweddol y tîm bychan hwn o 23 o staff, y mae pawb ohonynt yn llawn penderfyniad i wrando ar blant, i godi llais ar eu rhan, ac i ddylanwadu ar eraill er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n byw yn y wlad hon yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd, ac yn cael y cyfle gorau i gyflawni hyd eithaf eu potensial.

Er gwaethaf newidiadau cadarnhaol, mae achosion pwysig o dorri hawliau plant yn parhau. Byddwn ni'n dal ati gyda'r materion hynny, ac yn rhoi pwysau ar y rhai sy'n gallu rhoi newid ar waith i wneud hynny. Fel bob amser, ein dull gweithredu fydd gweithio gyda'r rhai sy'n gallu llywio a chyflawni newid er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i wella pethau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gyhoeddi ein barn ar ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion bob chwarter — gallwch chi ddarllen y rhain ar ein gwefan — a byddwn ni'n parhau i weithio gyda Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol i alw'r Llywodraeth i gyfrif.

Adeg ysgrifennu hyn, rydyn ni eisoes yn gweithio ar weithredu'n cynllun tair blynedd nesa, sydd wedi cael ei baratoi ar ôl ymgynghoriad sylweddol arall â mwy na 10,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion — Beth Nawr. Er y byddwn ni'n gweithio ar rhai agweddau newydd o fywydau plant yn ystod y tair blynedd nesa, fyddwn ni ddim yn gorffwys nes i ni weld canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob agwedd o'n cynllun gwaith cyntaf a'r ail un.

Rydw i'n falch o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni, ond rydw i hefyd yn teimlo cyfrifoldeb aruthrol i sicrhau bod y miloedd o blant a phobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw ac yn

gwrando arnyn nhw yn gallu gweld a theimlo newidiadau gwirioneddol o ganlyniad i'n hymyriadau. Iddyn nhw mae'r adroddiad yma.